# REVALIDATION




## Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC

Y gofynion ar gyfer adnewyddu eich cofrestriad



# CYNNWYS


BETH YW DIBEN Y DDOGFEN HON? .......... 3
BETH YW AIL-DDILYSU? .......... 6
RHESTR WIRIO – GOFYNION A THYSTIOLAETH ATEGOL .......... 9
Y BROSES AIL-DDILYSU .......... 11
SUT I FYND ATI I AIL-DDILYSU .......... 12
GWYBODAETH NAD OES MODD EI DEFNYDDIO I ADNABOD RHYWUN .......... 15
ORIAU YMARFER .......... 18
DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS (DPP) .......... 23
ADBORTH YN SEILIEDIG AR YMARFER .......... 25
ADRODDIADAU MYFYRIOL YSGRIFENEDIG .......... 27
TRAFODAETH FYFYRIOL .......... 29
IECHYD A CHYMERIAD .......... 31
TREFNIADAU INDEMNIAD PROFFESIYNOL .......... 33
CADARNHAD .......... 35
Y BROSES YMGEISIO .......... 38
GWIRIO EICH CAIS .......... 41
PROSESAU AIL-DDILYSU AC ADDASRWYDD I YMARFER YR NMC .......... 43
CANSLO EICH COFRESTRIAD .......... 45
FFURFLENNI A THEMPLEDI .......... 47


**Cyhoeddwyd y ddogfen hon, sydd wedi ei diweddaru, ym mis Mawrth 2019**

# BETH YW DIBEN Y DDOGFEN HON?

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae'n nodi sut i adnewyddu eich cofrestriad â'r NMC drwy ail-ddilysu bob tair blynedd.**

Caiff y gofynion ail-ddilysu naill ai eu pennu yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn)[1] a Rheolau Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru (y Rheolau)[2], neu maent yn safonau y mae'r NMC wedi'u gosod ar gyfer ail-ddilysu ac aildderbyn.[3]

## Gair am yr NMC

Mae'r NMC yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n bodloni ein gofynion sy'n cael caniatâd i ymarfer fel bydwraig neu nyrs gofrestredig yn y DU ac fel cydymaith nyrsio yn Lloegr.

Rydym hefyd yn gweithredu os bydd unrhyw bryderon yn cael eu mynegi ynghylch a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig yn addas i ymarfer.



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn taro golwg gyffredinol ar y gofynion ail-ddilysu y bydd yn rhaid i chi eu bodloni bob tair blynedd er mwyn adnewyddu eich cofrestriad. Mae hefyd yn nodi sut dylech chi gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a mynd ati i gwblhau'r broses. Mae'n cynnwys templedi y gallech chi eu defnyddio yn ogystal â ffurflenni y mae'n rhaid i chi eu llenwi wrth i chi wneud cais ail-ddilysu.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhestr wirio o'r gofynion ail-ddilysu a'r dystiolaeth ategol ar gyfer pob gofyniad.

Cyflwynir pob gofyniad ar dudalennau 17-36, yn ogystal â gwybodaeth am y canlynol:

- diben y gofyniad
- sut i fodloni'r gofyniad
- y dull gorfodol neu a argymhellir ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth sy'n ofynnol, a
- sut i ddangos i ni eich bod wedi bodloni'r gofyniad yn eich cais ar-lein.

Dylech ddarllen y Cod[4] a chanllawiau eraill ar ein gwefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Rydym wedi cyhoeddi amryw o adnoddau a all fod o ddefnydd i chi wrth i chi baratoi ar gyfer ail-ddilysu, gan gynnwys astudiaethau achos a thempledi wedi'u llenwi. Dylech sicrhau bod eich cadarnhäwr wedi darllen yr wybodaeth rydym wedi ei darparu i gadarnhawyr. Hefyd, rydym wedi darparu gwybodaeth i gyflogwyr, ac rydym yn argymell eich bod yn annog eich cyflogwr (os yw'n berthnasol) i'w darllen.

Cofiwch y bydd yn rhaid i chi dalu eich ffi gofrestru flynyddol bob blwyddyn er mwyn parhau i fod wedi cofrestru gyda'r NMC.

# Sut bydd yr NMC yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi eich hun i'r NMC fel rhan o'r broses ail-ddilysu. Dim ond eich data personol, fel y caniateir gan Ddeddf Diogelu Data 2018, y byddwn yn eu prosesu. 2018 ('DPA').

Mae manylion am ein polisi gwarchod dara wedi'u cynnwys yn ein hysbysiad preifatrwydd ar: **www.nmc.org.uk/contact-us/foi-and-dpa/data-protection**

Byddwn yn defnyddio eich data personol i weinyddu ac i asesu eich cais ail-ddilysu ac unrhyw wiriadau i'r cais hwnnw yn dilyn hynny. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth a ddaw i law drwy'r broses ail-ddilysu at ddibenion ymchwil, ac at ddibenion cynnal a gwella ein systemau a'n prosesau mewnol.

# Eich cyfrifoldeb chi

Chi sy'n gyfrifol am eich cais i ail-ddilysu. Rhaid i chi gynllunio'n ddigonol i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion o fewn eich cyfnod adnewyddu o dair blynedd, hyd eithaf eich gallu. Os oes arnoch angen cymorth gennym ni i'ch helpu i ail-ddilysu, darllenwch ein taflen ganllawiau i'ch helpu chi i ail-ddilysu.

Rydym yn disgwyl i chi gwblhau eich cais ail-ddilysu ar NMC ar-lein. Ni ddylid dirprwyo'r dasg hon i rywun arall oni bai ein bod ni wedi caniatáu addasiad i chi. Mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth gywir yn eich cais ar-lein.

Mae'n rhaid i chi gadw at yr amodau rydym yn eu cyflwyno yn y canllawiau hyn ac yn y canllawiau y byddwn yn eu rhoi i'ch cadarnhawyr ac i'ch cyflogwyr (os yw'n briodol). Mae enghreifftiau o'r amodau hyn yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i hynny) osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau a chael trafodaeth fyfyriol ag unigolyn sydd ar gofrestr yr NMC.

Os bydd gennym unrhyw reswm dros gredu nad ydych chi wedi bodloni'r amodau hyn, a/neu eich bod chi wedi gwneud datganiad ffug fel rhan o'ch cais ail-ddilysu, byddwn yn ymchwilio i'r mater, a gallai eich cofrestriad fod mewn perygl. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a roddir gennych chi'n cael ei defnyddio i ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri'r Cod ac ar gyfer unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer yn dilyn hynny.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y bobl ar ein cofrestr a'r gymuned ehangach rydym yn ei gwasanaethu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses ail-ddilysu yn gefnogol ac yn deg.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') yn ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.[5] Mae'r Ddeddf hon yn gwarchod pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth drwy bennu nifer o 'nodweddion gwarchodedig':

- oedran
- ailbennu rhywedd
- yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- yn feichiog neu yn y cyfnod mamolaeth
- anabledd[6]
- hil, yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd, cred neu ddiffyg crefydd neu gred
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn disgwyl bod pawb sy'n cyflogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn bodloni eu dyletswydd gyfreithiol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn disgwyl iddynt eich cefnogi, ar sail eich anghenion chi, ac rydym yn disgwyl iddynt ddileu unrhyw rwystrau diangen er mwyn eich helpu i fodloni'r gofynion ail-ddilysu.

Nid ydym yn gallu newid y gofynion ail-ddilysu, gan eu bod yn safonau cymhwysedd sy'n dangos y gallwch ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Ond, gallwn eich cefnogi chi i adnewyddu eich cofrestriad drwy ddarparu addasiadau sy'n eich helpu i ail-ddilysu. Er enghraifft, gallwn ymestyn rhywfaint ar ddyddiad eich cais er mwyn i chi gael rhagor o amser i fodloni'r gofynion ail-ddilysu neu roi ffurflen gais bapur i chi.

Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig ar gael yn yr adran canllawiau a gwybodaeth.

# Sut i gysylltu â'r NMC

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr adran ar ail-ddilysu ar wefan yr NMC yn: **www.nmc.org.uk**. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac os oes angen rhagor o help arnoch chi, anfonwch e-bost atom yn: **revalidation.escalation@nmc-uk.org**.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn neu ddarparu adborth am safon ein gwasanaeth, ewch i'r tudalennau 'Cysylltu â ni' ar ein gwefan.

# BETH YW AIL-DDILYSU?

## Ail-ddilysu

- yw'r broses sy'n caniatáu i chi barhau i fod wedi cofrestru gyda'r NMC;
- mae'n dangos eich bod yn dal yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol; ac
- mae'n broses barhaus y byddwch yn ei dilyn drwy gydol eich gyrfa.

**Eich cyfrifoldeb chi yw ail-ddilysu. Chi sy'n berchen ar eich cais i ail-ddilysu. Rydym yn argymell eich bod yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ail-ddilysu drwy gydol y cyfnod ail-ddilysu o dair blynedd er mwyn i chi fod yn barod pan fydd yn amser i chi wneud cais.**

## Nid yw ail-ddilysu

- yn ffordd o asesu pa mor addas ydych chi i ymarfer;
- yn ffordd newydd i fynegi pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer (dylid mynegi unrhyw bryderon am nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio drwy'r broses addasrwydd i ymarfer bresennol); nac
- yn eich asesu yn ôl gofynion eich cyflogaeth bresennol/flaenorol.

## Diben ail-ddilysu

- codi ymwybyddiaeth o'r Cod a'r safonau proffesiynol a ddisgwylir gennych chi;
- rhoi'r cyfle i chi bwyso a mesur rôl y Cod wrth ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio a dangos eich bod chi'n 'byw' y safonau hyn;
- eich annog chi i wybod y diweddaraf yn eich gwaith proffesiynol drwy ddatblygu sgiliau newydd a deall anghenion y cyhoedd a chydweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth iddynt newid;
- annog diwylliant o rannu, myfyrio a gwella;
- eich annog chi i ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol a thrafod eich gwaith; a
- meithrin hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

# Ail-ddilysu a'r Cod

Un o brif gryfderau ail-ddilysu yw ei fod yn atgyfnerthu'r Cod drwy ofyn i chi ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio ar gyfer pob un o'r gofynion, gan gynnwys eich adroddiadau myfyriol ysgrifenedig a'ch trafodaethau myfyriol.

Dylai hyn dynnu sylw at rôl ganolog y Cod yn y maes nyrsio a bydwreigiaeth a'ch annog chi i ystyried sut mae'n berthnasol yn eich gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r Cod (paragraff 22) yn gofyn i chi fodloni'r holl ofynion cofrestru. I wneud hyn, rhaid i chi wneud y canlynol:

- bodloni unrhyw gais rhesymol er mwyn i ni allu goruchwylio'r broses gofrestru (22.1);
- cadw at ein horiau gwaith penodedig a chyflawni gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (22.2), a
- sicrhau bod gennych chi'r wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf, a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol rheolaidd a phriodol er mwyn cynnal a datblygu eich gallu a gwella eich perfformiad (22.3).

# Ail-ddilysu a safonau hyfedredd

Un o ddibenion ail-ddilysu yw eich helpu i barhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae ail-ddilysu yn gwneud hyn drwy eich annog chi i ddiweddaru eich gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd. Mae'r NMC yn diweddaru safonau hyfedredd yn rheolaidd i bawb ar ein cofrestr. Mae'r rhain yn cyflwyno'r hyn rydym yn disgwyl i fyfyrwyr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud er mwyn gwneud cais i ymuno â'n cofrestr ac ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n bwysig eich bod yn ymgyfarwyddo â'r safonau diweddaraf, yn canfod pa rai sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer a nodi eich anghenion hyfforddi. Bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu eich ymarfer, ac mae hefyd yn golygu y byddwch yn gallu goruchwylio ac asesu myfyrwyr os yw hyn yn rhan o'ch rôl.

Mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch cyflogwyr am y mathau o ddatblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn eich helpu i wneud hyn.

# Yn gyffredinol, dylai ail-ddilysu arwain at well ymarfer, a manteision diogelu'r cyhoedd o ganlyniad i hynny.



# RHESTR WIRIO – GOFYNION A THYSTIOLAETH ATEGOL

**Dyma'r holl ofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni er mwyn ail-ddilysu ac adnewyddu eich cofrestriad bob tair blynedd gyda'r NMC.**

| Gofynion | Tystiolaeth ategol |
|---|---|
| **450 o oriau ymarfer ar gyfer pob cofrestriad.**<br>**Mae angen 900 awr o ymarfer ar gyfer cofrestriad deuol (ee nyrs a bydwraig)[7]** | Cadw cofnod o'r oriau ymarfer rydych wedi'u cwblhau, gan gynnwys:<br>• dyddiadau'r ymarfer<br>• nifer yr oriau y gwnaethoch eu cyflawni<br>• enw, cyfeiriad a chod post y sefydliad<br>• cwmpas yr ymarfer (gweler y blwch cyngor ar dudalen 20)<br>• lleoliad gwaith (gweler y blwch cyngor ar dudalen 20)<br>• disgrifiad o'r gwaith y gwnaethoch chi ei gyflawni, a<br>• dylid cofnodi tystiolaeth o'r oriau ymarfer hynny<br>• Darllenwch ein taflen ganllawiau ar gyfer gofynion oriau ymarfer a'r templed a awgrymir yn yr adran canllawiau a gwybodaeth |
| **35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus.**<br>**(Rhaid i 20 awr fod yn cymryd rhan)** | Cadw cofnodion cywir, y gellir eu gwirio, o'ch gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys:<br>• dull y datblygiad proffesiynol parhaus (mae cwrs, dysgu ar-lein a dysgu eich hun yn enghreifftiau o 'ddull y datblygiad proffesiynol parhaus')<br>• disgrifiad cryno o'r pwnc a sut mae'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer<br>• dyddiadau'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus<br>• nifer yr oriau a'r oriau cyfranogi bob wythnos<br>• nodi pa ran o'r Cod sydd fwyaf perthnasol i'r datblygiad proffesiynol parhaus, a<br>• dylech gofnodi pob tystiolaeth o'ch gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus<br>• Darllenwch ein taflen ganllawiau a'r templed a awgrymir yn yr adran canllawiau a gwybodaeth |
| **Pum darn o adborth sy'n seiliedig ar ymarfer** | Nodiadau ynghylch cynnwys yr adborth a sut roeddech yn ei ddefnyddio i wella eich ymarfer. Bydd hyn yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch chi'n paratoi eich adroddiadau myfyriol.<br>Sicrhewch nad yw eich nodiadau'n cynnwys unrhyw ddata personol (darllenwch yr adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16). |

| Gofynion | Tystiolaeth ategol |
|---|---|
| **Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig** | Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig sy'n egluro'r hyn rydych wedi ei ddysgu o'ch gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus a/neu adborth a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich ymarfer, sut rydych chi wedi newid neu wella eich gwaith o ganlyniad a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod.<br>Rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC ar dudalen 45 a sicrhau nad yw eich adroddiadau'n cynnwys unrhyw ddata personol (darllenwch yr adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun). |
| **Trafodaeth fyfyriol** | Mae ffurflen ar gael ar gyfer trafodaeth fyfyriol, sy'n cynnwys enw a Pin NMC y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor ac y gwnaethoch drafod ag ef neu hi, yn ogystal â dyddiad y drafodaeth.<br>Rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC ar dudalen 46 a sicrhau nad yw'r adran crynodeb o'r drafodaeth yn cynnwys unrhyw ddata personol (darllenwch yr adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun). |
| **Iechyd a chymeriad** | Rhaid i chi wneud datganiad ynghylch eich iechyd a'ch cymeriad fel rhan o'r cais ail-ddilysu ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein canllawiau ar iechyd a chymeriad. |
| **Trefniant indemniad proffesiynol** | Tystiolaeth i ddangos bod gennych chi drefniant indemniad priodol ar waith.<br>Rhaid i chi roi gwybod i ni a yw eich trefniant indemniad drwy eich cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol, neu drwy drefniant yswiriant preifat.<br>Os darperir eich trefniant indemniad drwy fod yn aelod o gorff proffesiynol neu drwy drefniant yswiriant preifat, bydd angen i chi roi enw'r corff neu'r darparwr proffesiynol. |
| **Cadarnhad** | Ffurflen gadarnhau, wedi ei llofnodi gan eich cadarnhäwr.<br>Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC sydd ar dudalennau 47-49. |

# Y BROSES AIL-DDILYSU

## Yn ystod y tair blynedd ers y tro diwethaf i chi adnewyddu/ymuno â'r gofrestr

Mae gofyn i chi fodloni amryw o ofynion ail-ddilysu i ddangos bod gennych chi'r sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'ch bod yn parhau i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol

Darllenwch dudalennau 17–36: am fanylion y gofynion

## Yn y 12 mis cyn eich dyddiad adnewyddu

Pan fyddwch chi wedi bodloni'r gofynion, bydd angen i chi drafod ail-ddilysu â chadarnhäwr. Fel rhan o'r drafodaeth gadarnhau hon, byddwch yn dangos eich bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ail-ddilysu, heblaw am gael trefniant indemniad proffesiynol a bodloni'r gofynion iechyd a chymeriad.

Darllenwch dudalennau 34–36: 'Cadarnhad'

## O leiaf 60 diwrnod cyn dyddiad eich cais

Bob tair blynedd, gofynnir i chi wneud cais ail-ddilysu ar NMC Online. Byddwn yn rhoi gwybod i chi o leiaf 60 diwrnod cyn y dyddiad y bydd gofyn i chi wneud eich cais, naill ai dros e-bost os ydych chi wedi creu cyfrif NMC Online, neu drwy anfon llythyr i'ch cyfeiriad cofrestredig.

Darllenwch dudalennau 37–39: 'Y broses ymgeisio'

## Yn y 60 diwrnod cyn dyddiad eich cais ail-ddilysu

Pan fyddwch wedi cael eich hysbysiad, bydd angen i chi fynd ar-lein a llenwi'r ffurflen gais. Fel rhan o'r cais hwnnw, bydd angen i chi ddatgan i'r NMC eich bod wedi cydymffurfio â'r gofynion ail-ddilysu.

Darllenwch dudalennau 37–39: 'Y broses ymgeisio'

## Ar ôl cyflwyno eich cais ail-ddilysu

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ail-ddilysu ac yn gofyn i'r gweithwyr proffesiynol hynny am ragor o wybodaeth er mwyn i ni wirio'r datganiadau y maent wedi'u cyflwyno fel rhan o'u cais ail-ddilysu. Os byddwch chi'n cael eich dewis, bydd eich cofrestriad yn parhau i fod yn gymwys nes bydd y broses ddilysu wedi ei chwblhau a gallwch barhau i ymarfer fel arfer yn ystod y cyfnod hwn. Dim ond os bydd y gwaith gwirio'n cael ei gwblhau'n llwyddiannus y bydd eich cofrestriad yn adnewyddu.

Darllenwch dudalennau 40–41: 'Gwirio eich cais'

# SUT I FYND ATI I AIL-DDILYSU

## Deall y termau pwysig

1. **Y broses gofrestru:** Bob tair blynedd ar ôl i chi ymuno (neu ailymuno) â'r gofrestr, bydd angen i chi adnewyddu eich cofrestriad drwy ail-ddilysu. Hefyd, bydd angen i chi gadw eich cofrestriad bob blwyddyn drwy dalu ffi gofrestru flynyddol. Os na fyddwch chi'n cwblhau'r prosesau hyn ar amser, bydd eich cofrestriad yn dod i ben.
2. **Dyddiad olaf talu ffi:** Y dyddiad olaf ar gyfer talu eich ffi gofrestru flynyddol er mwyn cadw eich cofrestriad.
3. **Dyddiad y cais ail-ddilysu:** Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno eich cais i ail-ddilysu. Diwrnod cyntaf y mis y bydd eich cofrestriad yn dod i ben fydd hwn, felly os mai 30 Ebrill yw eich dyddiad adnewyddu, 1 Ebrill fodd dyddiad eich cais i ail-ddilysu.
4. **Dyddiad adnewyddu:** Y dyddiad y bydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu os byddwch chi wedi cwblhau eich cais ail-ddilysu yn llwyddiannus. Diwrnod olaf y mis y bydd eich cofrestriad yn dod i ben fydd hwn.
5. **Gwirio:** Y broses o wirio eich cais ail-ddilysu. Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ail-ddilysu ac yn gofyn am ragor o wybodaeth er mwyn gwirio. Byddwn yn gwirio er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu. Mae rhagor o wybodaeth am wirio ar gael yn ein taflen ganllawiau yn yr adran canllawiau a gwybodaeth.

## Cadw portffolio

6. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cadw tystiolaeth eich bod wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu mewn portffolio. Nid oes angen i hwn fod yn e-bortffolio o reidrwydd; darllenwch ein taflen ganllawiau ar e-bortffolios yn **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information** i gael rhagor o wybodaeth. Rydym wedi darparu ffurflenni y mae'n rhaid i chi eu defnyddio a thempledi y gallwch chi eu defnyddio i gofnodi eich tystiolaeth ar gyfer pob gofyniad; mae'r rhain ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon ac ar ein gwefan yn **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/forms-and- templates**. Mae enghreifftiau o dempledi a ffurflenni wedi eu llenwi ar gael yma i chi hefyd.
7. Rydym yn disgwyl i unrhyw dystiolaeth gael ei chadw yn Saesneg, a rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflwyno eu cais i ail-ddilysu yn Saesneg, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani wedi hynny fel rhan o'r broses wirio.
8. Bydd y portffolio hwn yn ddefnyddiol ar gyfer eich trafodaeth â'ch cadarnhäwr (darllenwch dudalennau 34-36). Hefyd, bydd angen i chi gael yr wybodaeth hon rhag ofn i ni ofyn am ei gweld i wirio'r datganiadau a wnaethoch fel rhan o'ch cais (darllenwch dudalennau 40-41).

Mae'r NMC yn cydnadbod anghenion diwylliant a iaith y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg (am ragor o wybodaeth gweler **www.nmc.org.uk/about-us/our-equality-and-diversity-commitments/welsh- language-scheme**). Rydym wedi cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n harweiniad ar gyfer nyrsys a bydwragedd, cadarnhawyr a chyflogwyr, yn ogystal â'n templedi a ffurflenni, ar ein gwefan yn **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information**.

9. Efallai eich bod yn cadw portffolio proffesiynol yn barod. Os felly, nid oes angen i chi gadw portffolio ar wahân, ond efallai yr hoffech ychwanegu ato.
10. Cewch ddefnyddio'r rhestr wirio ar dudalen 8 i sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth yn eich portffolio cyn i chi gael eich trafodaeth gadarnhau â'ch cadarnhäwr neu cyn i chi gyflwyno eich cais ail-ddilysu.
11. Rydym yn argymell eich bod yn cadw eich portffolio tan ar ôl i chi gwblhau eich proses ail-ddilysu nesaf. Er enghraifft, os gwnaethoch chi ail-ddilysu yn 2016, rydym yn awgrymu y dylech gadw eich portffolio tan ar ôl i chi ail-ddilysu eto yn 2019.
12. Cofiwch beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth yn eich portffolio, y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw'n fyw neu wedi marw. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cofnodi'r holl wybodaeth mewn ffordd nad oes modd adnabod unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr nac unigolyn arall o'r wybodaeth. Mae'r adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16 yn cynnwys canllawiau ar sut mae sicrhau nad yw eich portffolio yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.
13. Yn ystod eich cais ail-ddilysu, ni fyddwn yn gofyn i chi lwytho eich tystiolaeth i fyny na chyflwyno eich portffolio i'r NMC. Fodd bynnag, bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ail-ddilysu ac yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych chi i wirio eich cais ail-ddilysu drwy NMC Online. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth, felly mae'n bwysig eich bod yn cadw eich holl dystiolaeth ail-ddilysu yn ddiogel.

# Gwrthdaro rhwng buddiannau a chanfyddiad o ragfarn

14. Gwrthdaro rhwng buddiannau yw sefyllfa a all danseilio didueddrwydd a gwrthrychedd penderfyniadau yn y broses ail-ddilysu. Gall gwrthdaro rhwng buddiannau godi pan ddylanwadir ar farn unigolyn yn oddrychol drwy gysylltiad â chydweithwyr oherwydd ffyddlondeb i'w perthynas, yn hytrach na drwy broses wrthrychol.
15. Gall gwrthdaro rhwng buddiannau godi oherwydd perthnasau personol neu fasnachol.
16. Mae angen i chi fod yn ofalus o unrhyw berthynas bersonol neu fasnachol rhyngoch chi, eich cadarnhäwr a'ch partner ar gyfer y drafodaeth fyfyriol. Ni chewch ddewis aelod o'r teulu nac unigolyn y mae gennych berthynas bersonol agos ag ef neu hi, fel ffrind agos, ar gyfer y naill rôl na'r llall.
17. Bydd angen i'ch cadarnhäwr a'ch partner ar gyfer y drafodaeth fyfyriol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros benderfynu a oes gwrthdaro rhwng buddiannau neu ganfyddiad o ragfarn, er mwyn sicrhau hygrededd a gwrthrychedd y broses gadarnhau a'r drafodaeth fyfyriol. Os ydych chi'n credu bod risg o wrthdaro rhwng buddiannau, dylech gael rhywun gwahanol i fod yn gadarnhäwr ac yn bartner ar gyfer y drafodaeth fyfyriol.

# Arfarniadau

18. Mae gan nifer o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflogwr. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan y bobl sydd ar ein cofrestr. Darllenwch yr adran canllawiau i gyflogwr ar gyfer ail-ddilysu yn **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information**.
19. Mae arfarniadau yn ffordd i gyflogwyr asesu perfformiad eu gweithwyr cyflogedig yn ôl gofynion eu rôl a chanfod meysydd i'w gwella a'u datblygu.

20. Mae'r broses ail-ddilysu wedi ei dylunio er mwyn gallu ei chynnal fel rhan o'r broses arfarnu reolaidd. Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig ac os nad ydych chi'n cael eich arfarnu'n rheolaidd, dylech ystyried gofyn i'ch cyflogwr drefnu arfarniad i chi cyn dyddiad eich cais ail-ddilysu.

21. Mae gan y drafodaeth gadarnhau ddiben gwahanol i arfarniad, oherwydd mae'n ymwneud â dangos i gadarnhäwr priodol eich bod wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu, nid gofynion eich cyflogaeth (darllenwch yr adran 'Cadarnhad' ar dudalennau 34-36 am ragor o fanylion). Fodd bynnag, mae modd ei gynnwys mewn arfarniad, ac rydym yn argymell bod eich trafodaethau cadarnhau yn rhan o arfarniad blynyddol pan fo hynny'n bosibl, ac os ydych chi'n cael un.

22. Os yw eich rheolwr llinell wedi cofrestru gyda'r NMC hefyd, efallai yr hoffech gael eich trafodaeth fyfyriol a'ch trafodaeth gadarnhau fel rhan o'ch arfarniad blynyddol, os ydych chi'n cael un. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi drafod â chadarnhäwr bob blwyddyn fel rhan o arfarniad blynyddol, er mwyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo/iddi am eich proses ail-ddilysu.

23. Os nad ydych chi'n weithiwr cyflogedig, neu os ydych chi'n weithiwr cyflogedig ac nad ydych wedi gallu trefnu arfarniad cyn dyddiad eich cais ail-ddilysu, byddwch yn dal i allu adnewyddu eich cofrestriad drwy fodloni'r gofynion ail-ddilysu. Nid oes angen i chi drefnu i unigolyn neu sefydliad arall gynnal arfarniad at ddibenion ail-ddilysu, ond bydd angen i chi drefnu trafodaeth fyfyriol a thrafodaeth gadarnhau o hyd.



# GWYBODAETH NAD OES MODD EI DEFNYDDIO I ADNABOD RHYWUN

24. Mae'n debyg eich bod chi'n prosesu data personol fel rhan o'ch rôl o ddydd i ddydd. Os ydych chi'n cael eich cyflogi, mae'n debyg bod cofrestriad eich cyflogwr yn berthnasol i chi o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Os ydych chi'n ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio annibynnol neu hunangyflogedig, mae'n debygol eich bod chi eisoes wedi cofrestru o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn rhinwedd eich swydd.
25. Mae'r adran hon yn cyflwyno eich rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd a diogelu data yng nghyswllt bodloni'r gofynion ail-ddilysu. Nid yw'n cynnwys eich rhwymedigaethau presennol yng nghyswllt deddfwriaeth diogelu data.

Eich goblygiadau mewn perthynas â chyfrinachedd o dan y Cod

## Eich rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd o dan y Cod

26. Mae'r Cod yn nodi'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i chi eu cynnal er mwyn cael eich cofrestru i ymarfer yn y DU. Mae Safon 5 y Cod yn datgan:

### Parchu hawl pobl i breifatrwydd a chyfrinachedd

Fel nyrs neu fydwraig, mae gennych chi ddyletswydd i gynnig cyfrinachedd i'r holl bobl sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn wybodus am eu gofal a bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei rannu'n briodol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi:

- barchu hawl person i breifatrwydd ym mhob agwedd ar eu gofal (5.1)
- sicrhau fod pobl yn wybodus o ran sut a pham fod gwy"ldaeth yn cael ei rhannu gan y rhai hynny fydd yn cynnig gofal (5.2)
- parchu fod hawl rhywun i breifatrwydd a chyfrinachedd yn parhau wedi iddyn nhw far (5.3)
- rhannu gwybodaeth angenrheidiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau eraill pan fydd buddiannau diogelwch y claf a diogelwch cyhoeddus yn diystyru'r angen am gyfrinachedd, a (5.4)
- rhannu gyda phobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr, cyn belled ag y bo'r gyfraith yn ei ganiatau, y wybodaeth maen nhw eisiau neu angen ei wybod am eu hiechyd, gofal a thriniaeth barhaus yn sensitif ac mewn ffordd y gallant ei ddeall. (5.5)

# Sicrhau nad yw eich tystiolaeth yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol

27. Wrth fodloni'r gofynion ail-ddilysu a chadw cofnod o'ch tystiolaeth, cofiwch beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw yn fyw neu wedi marw. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cofnodi'r holl wybodaeth mewn ffordd nad oes modd adnabod unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr nac unigolyn arall o'r wybodaeth.

28. Er enghraifft, rhaid peidio â chynnwys y canlynol mewn unrhyw nodiadau nac adroddiadau myfyriol:

    - enw unrhyw unigolyn
    - dyddiad unrhyw achos neu ddigwyddiad y cyfeirir ato
    - ward neu leoliad penodol y digwyddiad
    - disgrifiadau o amgylchiadau unigryw lle byddai modd adnabod unigolyn o'r amgylchiadau.

29. Rhaid echdynnu unrhyw wybodaeth a geir o ddata cyflogwr (fel cofnod cwynion) mewn ffordd nad oes modd cael gafael ar unrhyw wybodaeth y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, na'i defnyddio na'i chofnodi. Er enghraifft, rhaid i chi beidio ag anfon negeseuon e-bost gwaith i'ch cyfrif personol, na llwytho copïau o gofnodion cyflogwr i lawr na gwneud copïau ohonynt. Rhaid i chi ofyn am ganiatâd i ddefnyddio neu gael gafael ar wybodaeth eich cyflogwr.

# Senarios enghreifftiol

30. Byddwch yn ymwybodol yn barod o bwysigrwydd cadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, a pheidio â phrosesu gwybodaeth bersonol y tu allan i'ch lleoliadau gwaith neu gyflogaeth. Ond,

## Senario 1

Ym mis Ionawr 2015 roedd Mrs Jones yn ward 8 gyda chlun wedi'i dorri. Gwnaeth gwyn am ddiffyg hydradiad. Rydych chi am ddefnyddio'r adborth hwn yn un o'ch cofnodion myfyriol fe enghraifft o ble rydych chi wedi rhoi proses newydd ar waith er mwyn sicrhau fod yr holl gleifion yn cael cynnig dwr yn rheolaidd.

Yn eich cofnod myfyriol gallech ddweud: "Fe wnaeth claf gydag anaf difrifol gwyno am y diffyg hydradiad.'

Nid oes unrhyw ddyddiadau, enwau na wardiau wedi'u cynnwys yn y cofnod, ac mae'r math o anaf hefyd wedi'i hepgor, felly ni ellir adnabod Mrs Jones o'r wybodaeth hon. Gallwch egluro beth wnaethoch chi, pa welliant wnaethoch chi a sut roedd hyn yn berthnasol i'r Cod.

## Senario 2

Wrth adolygu'r cofnod o gwynion sy'n cael ei gadw yn yr uned famolaeth lle'r ydych chi'n gweithio, rydych chi'n sylw ar gŵyn gan Mrs Smith ynghylch diffyg parhad gofal a throsglwyddo rhwng bydwragedd ar ddiwedd shifft ar 12 Ionawr 2015. Chi oedd un o'r bydwragedd dan sylw, ynghyd â'ch cydweithiwr, Sarah. Fe wnaethoch drafod hyn â'ch cydweithwyr, ac rydych wedi gwella'r ffordd rydych chi'n trosglwyddo ar ddiwedd shifftiau. Rydych chi'n dymuno defnyddio'r adborth hwn yn un o'ch adroddiadau myfyriol.

Cyn ysgrifennu adroddiad myfyriol, rhaid i chi ofyn i'ch cyflogwr a gewch chi ddefnyddio'r wybodaeth o'r cofnod cwynion. Yn eich adroddiad myfyriol, gallech ddweud: 'Derbyniwyd cwyn ynghylch diffyg parhad gofal a'r trosglwyddo rhyngof fi a chydweithiwr ar ddiwedd shifft'.

Nid oes unrhyw wybodaeth am unrhyw unigolyn, gan gynnwys Mrs Smith a'ch cydweithiwr, wedi'i chynnwys yn y cofnod hwn. Yna, gallwch egluro'r hyn a wnaethoch chi, pa welliannau wnaethoch chi a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod.

rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau syml i chi isod i ddangos sut i gofnodi enghraifft o adborth fel nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn.

# Cadw eich ffurflen adroddiad myfyriol, eich ffurflen trafodaeth fyfyriol a'ch ffurflen gadarnhau

31. Nid oes gofyn i chi gyflwyno eich ffurflen adroddiad myfyriol, eich ffurflen trafodaeth fyfyriol na'ch ffurflen gadarnhau i'r NMC unrhyw bryd yn ystod y cais ail-ddilysu. Nid oes angen eu cadw'n electronig na'u llwytho i fyny ar NMC Online fel rhan o'ch cais, na'u darparu os byddwch chi'n cael eich dewis er mwyn i ni wirio eich tystiolaeth.

32. Mae eich 'ffurflen trafodaeth fyfyriol' a'ch 'ffurflen gadarnhau' yn cynnwys data personol am unigolyn arall. Mae hyn yn golygu bod goblygiadau diogelu data i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n llenwi'r ffurflenni hyn, pan fyddant yn prosesu cofnodion electronig. Nid oes esemptiad o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data sy'n berthnasol i ddata personol sy'n cael eu prosesu gan ein hunigolion sydd wedi cofrestru, fel rhan o elfennau myfyrio a thrafod y broses ail-ddilysu. Ond, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cydnabod y byddai'n hynod anghymesur disgwyl i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio orfod cofrestru gyda nhw fel rheolyddion data wrth brosesu cofnodion electronig, neu i dalu ffi. Mae'r ICO wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau yn erbyn unrhyw rai o'n hunigolion sydd wedi cofrestru am beidio â chofrestru gyda'r ICO.

33. Cewch ddewis cadw eich trafodaeth fyfyriol a'ch ffurflenni cadarnhau ar ffurf papur neu

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar ddeddfwriaeth diogelu data yn **ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/**

# ORIAU YMARFER

## Y gofynion

34. Mae'n rhaid i chi fod wedi ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig am isafswm nifer o oriau dros y cyfnod o dair blynedd ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu ers i chi ymuno â'r gofrestr.[8]

| Cofrestru | Isafswm cyfanswm yr oriau ymarfer sy'n ofynnol |
|---|---|
| Nyrs | 450 o oriau ymarfer yn ofynnol |
| Bydwraig | 450 o oriau ymarfer yn ofynnol |
| Cydymaith nyrsio | 450 o oriau ymarfer yn ofynnol |
| Nyrs a SCPHN | 450 o oriau ymarfer yn ofynnol |
| Bydwraig a SCPHN | 450 o oriau ymarfer yn ofynnol |
| Nyrs a bydwraig (yn cynnwys Nyrs/SCPHN a Bydwraig/SCPHN)[9]<br><br>Neu<br><br>Cydymaith nyrsio a nyrs | 900 o oriau ymarfer yn ofynnol (yn cynnwys 450 awr ar gyfer nyrsio, 450 awr ar gyfer bydwreigiaeth, 450 awr ar gyfer cydymaith nyrsio) |

Mae Nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) yn golygu nyrs neu fydwraig sydd hefyd wedi cofrestru ar y rhan Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol ar y gofrestr.

35. Os ydych chi wedi bod yn ymarfer am lai na nifer yr oriau gofynnol yn y cyfnod o dair blynedd ers i chi gofrestru ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr, yna rhaid i chi gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer addas sydd wedi ei chymeradwyo gan yr NMC cyn dyddiad eich cais i adnewyddu eich cofrestriad.[10]

36. Dim ond yr oriau ymarfer gofynnol ar gyfer eu cofrestriad cychwynnol sy'n berthnasol i nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio cofrestredig sydd wedi cael eu derbyn mewn adran arall ar y gofrestr ers iddynt ddiweddaru eu cofrestriad ddiwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr. Bydd angen iddynt fodloni'r gofynion o ran oriau ymarfer ar gyfer cofrestru yn y ddwy adran yn y cyfnodau adnewyddu tair blynedd sydd i ddod.[11]

# Diben y gofynion hyn

37. Mae'r gofynion oriau ymarfer wedi'u dylunio i'ch helpu chi i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, a sicrhau eich bod yn cael y sgiliau diweddaraf.

# Sut i fodloni'r gofynion

38. Dim ond yr oriau ymarfer rydych chi wedi'u cyflawni tra rydych wedi cofrestru gyda'r NMC y cewch eu cyfrif. Ni allwch gyfrif ymarfer anghofrestredig nac oriau a gwblhawyd wrth weithio mewn proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio'n gwbl wahanol, er enghraifft fel parafeddyg neu feddyg.
39. Dylai'r oriau ymarfer adlewyrchu cwmpas cyfredol eich ymarfer. Mae'n rhaid i chi bob amser gydymffurfio â'r Cod: safonau proffesiynol ymarfer ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau eich gallu.
40. Mae'n rhaid i chi gyflawni eich oriau ymarfer mewn rôl lle rydych chi'n dibynnu ar eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig. Mae hyn yn **cynnwys**:
    - ymarfer fel nyrs, bydwraig, SCPHN a chydymaith nyrsio, mewn rolau sy'n debygol o fod angen cofrestru
    - ymarfer mewn rolau lle nad yw eich contract cyflogaeth yn mynnu'n benodol eich bod chi wedi cofrestru gyda ni ond lle rydych chi'n dibynnu ar eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rolau ym meysydd iechyd y cyhoedd neu nyrsio, bydwreigiaeth, rheoli, comisiynu, polisi ac addysg
    - gwaith mewn rolau gwirfoddol, lle rydych chi'n dibynnu ar eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig.
41. Ni all y gweithgareddau canlynol gael eu cyfrif tuag at y gofyniad oriau ymarfer:
    - nid oes modd cyfrif oriau mewn rôl yn y maes gofal iechyd, cynorthwyydd bydwreigiaeth neu nyrsio neu weithiwr cymorth tuag at yr oriau ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig
    - oriau a gwblhawyd wrth weithio mewn proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio ar wahân, er enghraifft wrth weithio fel parafeddyg neu feddyg
    - ni all nyrsys sy'n dilyn rhaglen bydwreigiaeth 18 mis ddefnyddio eu horiau hyfforddi er mwyn cynnal eu cofrestriad fel nyrs. Byddant yn gallu defnyddio unrhyw oriau ymarfer y maent wedi'u cyflawni fel nyrs, naill ai cyn neu ar ôl eu cwrs bydwreigiaeth, yn ystod y cyfnod tair blynedd.
42. Os ydych chi'n gweithio dramor (neu wedi gweithio dramor am ran o'ch cyfnod adnewyddu o dair blynedd) fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, bydd yr oriau hyn yn cyfrif tuag at y gofynion oriau ymarfer ar gyfer ail-ddilysu. Pan fo hynny'n bosibl, dylech bob amser gofrestru gyda'r rheoleiddiwr priodol yn y wlad lle rydych chi'n ymarfer.
43. Os ydych chi wedi cael seibiant gyrfa, byddwch yn dal i allu bodloni'r gofyniad oriau ymarfer os ydych chi wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau o ymarfer cofrestredig yn ystod eich cyfnod adnewyddu o dair blynedd.
44. Rydym wedi paratoi taflen ganllawiau i bobl sydd â sawl cofrestriad a chymwysterau ychwanegol. Ewch i'r adran canllawiau a gwybodaeth ar ein gwefan.

Mae rhagor o wybodaeth am weithio y tu allan i'r DU a dychwelyd i weithio ar gael ar ein gwefan **www.nmc.org.uk/registrations**

45. Os nad ydych chi wedi gwneud unrhyw fath o waith lle rydych chi wedi dibynnu ar eich sgiliau, eich gwybodaeth neu eich profiad fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig, neu os nad ydych yn gallu bodloni'r gofyniad oriau ymarfer, mae gennych chi ddau opsiwn:
    - gallwch gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer addas sydd wedi ei chymeradwyo gan yr NMC cyn dyddiad eich cais i ail-ddilysu. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u dylunio i ganiatáu i chi adnewyddu eich cofrestriad a dychwelyd i ymarfer ar ôl cael seibiant o ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth am raglenni dychwelyd i ymarfer ar gael ar ein gwefan, neu
    - gallwch ganslo eich cofrestriad. Byddwch yn dal i feddu ar gymhwyster nyrsio a/neu fydwreigiaeth, ond ni fyddwch wedi cofrestru gyda'r NMC. Cewch wneud cais i gael dod yn ôl ar y gofrestr yn y dyfodol os ydych chi'n dymuno ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig. Mae gwybodaeth am ganslo cofrestriad a gofyn am gael eich aildderbyn ar y gofrestr ar gael ar ein gwefan.
46. If you do not renew your registration, you will lapse from the register. You will not be able to practise in the capacity of a registered nurse, midwife or nursing associate. You cannot rely on any hours of work you undertake when you were not registered with the NMC as part of any application for readmission to the register.

# Sut i gofnodi oriau ymarfer

47. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cadw cofnod o'r oriau ymarfer rydych wedi'u cwblhau. Bydd hyn yn rhan o'r drafodaeth y byddwch yn ei chael â'ch cadarnhäwr. Hefyd, bydd angen yr wybodaeth hon arnoch rhag ofn y byddwn yn gofyn am ei gweld er mwyn gwirio eich cais. Rydym wedi darparu taflen ganllawiau ar oriau ymarfer ac mae gennym dempled enghreifftiol i'ch helpu i gofnodi eich oriau ymarfer. Dylai'ch cofnodion gynnwys:
    - dyddiadau'r ymarfer
    - nifer yr oriau y gwnaethoch eu cyflawni
    - enw, cyfeiriad a chod post y sefydliadau
    - cwmpas yr ymarfer
    - lleoliad gwaith
    - disgrifiad o'r gwaith y gwnaethoch chi ei wneud, a
    - thystiolaeth o'r oriau ymarfer hynny, fel taflenni amser, manylebau swyddi a phroffiliau rolau.
48. Nid oes angen i chi gofnodi oriau ymarfer unigol, o reidrwydd. Gallwch ddisgrifio eich oriau ymarfer fel diwrnodau neu wythnosau gwaith safonol.

# Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

49. Pan fyddwch yn gwneud cais ail-ddilysu, bydd angen i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad oriau ymarfer yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu ers cofrestru am y tro cyntaf. Dim ond am yr oriau diweddaraf rydych wedi'u cyflawni, er mwyn bodloni'r gofyniad sylfaenol ar gyfer eich cofrestriad(au) y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ni. Os ydych chi'n ymarfer mewn mwy nag un lleoliad ar hyn o bryd, rhowch fanylion eich prif leoliad yn gyntaf.

50. Byddwch yn cael cais i roi'r manylion canlynol hefyd:
    - a ydych chi'n ymarfer ar hyn o bryd
    - os ydych chi'n ymarfer ar hyn o bryd, lle rydych chi'n gwneud hynny, gan gynnwys manylion am gwmpas eich ymarfer a'ch lleoliad gwaith, ac
    - os nad ydych chi'n ymarfer ar hyn o bryd, lle rydych chi wedi ymarfer yn fwyaf diweddar, gan gynnwys manylion am gwmpas eich ymarfer a'ch lleoliad gwaith.

51. Er mwyn eich helpu i baratoi ar gyfer eich cais ar-lein, rydym wedi rhestru'r opsiynau cwmpas yr ymarfer a'r lleoliadau gwaith yn y blwch cyngor isod. Cafodd y rhain eu llunio i gyfleu amrywiaeth eang y math o ymarfer y mae pobl ar ein cofrestr yn gallu eu cyflawni, felly ni fyddant yn berthnasol i bob rôl.

52. Os ydych chi wedi cwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer neu wedi cael eich derbyn mewn adran arall ar y gofrestr ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu ymuno â'r gofrestr, bydd eich datganiad oriau ymarfer fel hyn:
    - Os ydych chi wedi cwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer cymeradwy ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu ymuno â'r gofrestr, byddwch yn gallu bodloni'r gofyniad oriau ymarfer ar gyfer y cofrestriad hwnnw.
    - Os ydych chi wedi cael eich derbyn mewn adran arall ar y gofrestr ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu ymuno â'r gofrestr (er enghraifft, rydych chi'n nyrs sydd wedi bod yn hyfforddi fel bydwraig ac wedi cael ail gofrestriad fel bydwraig), dim ond gofyniad oriau ymarfer eich cofrestriad cyntaf sydd ei angen arnoch. Y tro nesaf y byddwch yn gwneud cais i ail-ddilysu, os byddwch yn dymuno adnewyddu eich cofrestriad yn y ddwy adran ar y gofrestr ac y byddwch yn parhau i ymarfer fel nyrs a bydwraig, bydd angen i chi fodloni'r gofyniad oriau ymarfer ar gyfer y ddau gofrestriad.

I gael rhagor o wybodaeth am sawl cofrestriad a chymwysterau ychwanegol, darllenwch ein taflen ganllawiau yn yr adran canllawiau a gwybodaeth.

## Cwmpas yr ymarfer

Rheolwyr neu ofalwyr clinigol uniongyrchol: nyrsys oedolion a gofal cyffredinol; nyrsys plant a newyddenedigol; nyrsys iechyd meddwl; nyrsys anableddau dysgu; bydwragedd; ymwelwyr iechyd; iechyd galwedigaethol; nyrsys ysgolion; iechyd y cyhoedd; arall. Comisiynu, addysg, polisi, sicrhau ansawdd neu arolygu, ymchwil, arall.

## Lleoliad gwaith

Gwasanaeth ambiwlans, Sector gofal cartref, Lleoliad yn y gymuned (gan gynnwys nyrsio lleol a nyrsio seiciatryddol cymunedol), Ymgynghoriaeth, Sector Cosmetig neu Esthetig, Corff llywodraethu neu arweinyddiaeth arall, Meddygfa neu ofal sylfaenol arall, Ysbyty neu ofal eilaidd arall, Arolygiaeth neu reoleiddiwch, Yswiriant neu gyfreithiol, Uned mamolaeth neu ganolfan eni, Milwrol, Iechyd galwedigaethol, Yr Heddlu, Sefydliad polisi, Carchar, lleoliad domestig preifat, Sefydliad iechyd cyhoeddus, Ysgol, Gofal arbenigol neu drydyddol gan gynnwys hospis, Cyngor ffôn neu ar y we, Undeb masnach neu gorff proffesiynol, Prifysgol neu gyfleuster ymchwil arall, sector gwirfoddol neu elusennol, Arall.



# DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS (DPP)

## Y gofynion

53. Mae'n rhaid i chi fod wedi cyflawni 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, yn y cyfnod o dair blynedd ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad neu i chi ymuno â'r gofrestr.[12]
54. Rhaid i o leiaf 20 o'r 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus gynnwys dysgu cyfranogol.[13]
55. Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion cywir o'r datblygiad proffesiynol parhaus rydych wedi'i gyflawni. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:
    - dull y datblygiad proffesiynol parhaus
    - disgrifiad o'r pwnc a sut roedd yn berthnasol i'ch ymarfer
    - dyddiadau'r gweithgareddau
    - nifer yr oriau (gan gynnwys nifer yr oriau cyfranogi)
    - nodi pa ran o'r Cod sydd fwyaf perthnasol i'r gweithgaredd, a
    - thystiolaeth eich bod wedi cyflawni'r gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus.[14]

## Diben y gofynion hyn

56. Mae'n ddyletswydd arnoch chi, fel gweithiwr proffesiynol, i sicrhau bod gennych chi'r wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf, drwy broses barhaus o ddysgu a myfyrio.
57. Mae'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u dylunio i'ch helpu chi i barhau i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, i wella ymarfer neu i ddatblygu sgiliau newydd pan fydd bwlch wedi ei ganfod, ac i ymateb i newidiadau a datblygiadau ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.
58. Mae'r gofyniad cyfranogi hefyd yn helpu i herio unigedd proffesiynol drwy ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgu drwy ymgysylltu a chyfathrebu ag eraill.

## Sut i fodloni'r gofynion

59. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn weithgaredd dysgu y gallwch ei wneud ar wahân i'ch ymarfer arferol. Mae hyn yn wahanol i'r dysgu bob dydd y bydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn ei wneud fel rhan o'u hymarfer parhaus.
60. Dylai unrhyw weithgaredd dysgu rydych chi'n cymryd rhan ynddo fod yn berthnasol i gwmpas eich ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio. Pan fyddwch chi'n cynllunio, yn cyflawni ac yn cofnodi eich datblygiad proffesiynol parhaus, dylech ganolbwyntio ar yr hyn rydych chi'n ei ddysgu, sut mae wedi ei gysylltu â chwmpas eich ymarfer a sut gallwch roi hynny ar waith yn ymarferol.

61. Nid ydym yn pennu unrhyw fath penodol o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rydym ni o'r farn mai chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa weithgareddau dysgu sydd fwyaf addas ac sydd fwyaf o fudd i gwmpas eich ymarfer chi. Rydym wedi paratoi taflen ganllawiau sy'n awgrymu rhai gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus unigol a chyfranogol y gallwch eu cyflawni, sy'n cynnwys nifer o weithgareddau, yn hytrach nad dim ond cyrsiau hyfforddi (darllenwch yr adran canllawiau a gwybodaeth). Dim ond enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yma - nid yw'n rhestr gyflawn.

62. Rydym yn gwybod bod nifer o sefydliadau'n mynnu bod eu staff yn dilyn hyfforddiant gorfodol. Ni ddylech gynnwys hyfforddiant gorfodol nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch ymarfer (er enghraifft, hyfforddiant tân neu hyfforddiant iechyd a diogelwch) fel rhan o'ch 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, os byddwch chi'n cyflawni unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol ar gyfer cwmpas eich ymarfer a'ch datblygiad proffesiynol, er enghraifft, hyfforddiant gorfodol ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb os yw eich rôl yn ymwneud â pholisi, gallech gynnwys hynny.

63. Mae dysgu cyfranogol yn cynnwys unrhyw weithgaredd dysgu, lle rydych chi'n rhyngweithio'n bersonol â gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol y tu allan i'r maes gofal iechyd. Gall fod yn weithgaredd sy'n cael ei gyflawni ag un neu ragor o weithwyr proffesiynol neu mewn lleoliad grŵp mwy. Nid oes angen i'r grŵp fod mewn amgylchedd ffisegol cyffredin bob amser, fel grŵp astudio neu gynhadledd. Gallai fod yn grŵp mewn rhith-amgylchedd (fel grŵp trafod ar-lein).

64. Mae'r NMC yn diweddaru safonau hyfedredd yn rheolaidd i bawb ar ein cofrestr. Mae'r rhain yn cyflwyno'r hyn rydym yn disgwyl i fyfyrwyr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud er mwyn gwneud cais i ymuno â'n cofrestr ac ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Pan fyddwch chi'n ystyried pa ddatblygiad proffesiynol parhaus rydych yn bwriadu ei gyflawni, rydym yn argymell eich bod yn adolygu'r safonau hyfedredd diweddaraf ar gyfer eich adran ar y gofrestr, yn myfyrio ar sut mae cwmpas eich ymarfer yn berthnasol i'r safonau, ac yn ystyried gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a fyddai'n eich helpu i ddatblygu eich sgiliau. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n goruchwylio a/neu'n asesu myfyrwyr fel rhan o'ch rôl.

## Sut i gofnodi datblygiad proffesiynol parhaus

65. Mae'n rhaid i chi gynnal cofnodion manwl o'ch gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, ac rydym wedi darparu templed i'ch helpu gyda hyn. Bydd hyn yn rhan o'ch trafodaeth â'ch cadarnhäwr. Bydd angen yr wybodaeth hon arnoch rhag ofn y byddwn yn gofyn am gael ei gweld i wirio eich cais. Dylai'ch cofnodion gynnwys:

- dull y datblygiad proffesiynol parhaus
- disgrifiad cryno o'r pwnc a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer
- dyddiadau'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus
- nifer yr oriau a'r oriau cyfranogi bob wythnos
- nodi pa ran o'r Cod sydd fwyaf perthnasol i'r datblygiad proffesiynol parhaus, a
- thystiolaeth o'r gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

66. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad datblygiad proffesiynol parhaus.

# ADBORTH YN SEILIEDIG AR YMARFER

## Y gofyniad

67. Mae'n rhaid i chi fod wedi cael pum darn o adborth sy'n ymwneud a gwaith yn ystod y tair blynedd ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr[15]

## Diben y gofyniad hwn

68. Diben y gofyniad i gael adborth yn seiliedig ar ymarfer yw eich annog i fod yn fwy ymatebol i anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Mae angen i chi ofyn am adborth gan y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw ac yn gofalu amdanynt. Yn bwysig, mae angen i chi ddefnyddio'r adborth a gewch i asesu a gwella eich ymarfer.

## Sut i fodloni'r gofyniad

69. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cael adborth gan amryw o ffynonellau, er enghraifft:
    - adborth gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr neu fyfyrwyr fel rhan o'ch ymarfer o ddydd i ddydd
    - adborth gan gydweithwyr fel nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill
    - adborth gan gydweithwyr sy'n rheolwyr, ar y dderbynfa, mewn swyddi cynorthwyol, yn ogystal â chyd athrawon, ymchwilwyr, academyddion neu gydweithwyr polisi
    - cwynion
    - adroddiadau perfformiad tîm
    - adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, ac
    - adborth drwy eich arfarniad blynyddol
70. Math o adborth:
    - gall adborth fod ynghylch eich ymarfer chi neu ymarfer eich tim, eich ward, eich uned neu eich sefydliad (dylech egluro pa effaith a gafodd yr adborth ar eich ymarfer)
    - ffurfiol neu anffurfiol
    - ysgrifenedig neu ar lafar, a
    - chadarnhaol neu adeiladol.

71. Mae'n debyg y byddwch eisoes wedi cael gwahanol fathau o adborth. Mewn nifer o sefydliadau, mae adborth yn cael ei gasglu'n barod mewn sawl ffordd. Rhaid i chi ofyn am ganiatâd i ddefnyddio neu gael gafael ar wybodaeth eich cyflogwr. Rhaid i unrhyw wybodaeth gael ei hechdynnu mewn ffordd sy'n golygu nad oes modd defnyddio, cofnodi na chael gafael ar wybodaeth sy'n adnabod unigolyn. Er enghraifft, rhaid i chi beidio ag anfon negeseuon e-bost gwaith i'ch cyfrifon personol, na llwytho copïau o gofnodion cyflogwr i lawr na gwneud copïau ohonynt. Darllenwch yr adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16 i gael rhagor o wybodaeth.

72. Os byddwch yn dewis gofyn am adborth yn uniongyrchol gan gydweithwyr, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth, rhaid i chi nodi'n eglur yn eich cais na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth y mae modd ei defnyddio i adnabod rhywun mewn unrhyw adborth. Hefyd, dylech roi gwybod iddynt sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'r adborth, a sicrhau'r cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth na fydd unrhyw adborth y byddant yn ei roi yn effeithio ar eu gofal.

## Sut i gofnodi adborth

73. Rydym yn argymell eich bod yn cadw nodyn o gynnwys unrhyw adborth a gewch, gan gynnwys sut rydych wedi ei ddefnyddio i wella eich ymarfer. Bydd hyn yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn paratoi eich adroddiadau myfyrio. Rydym wedi darparu templed i'ch helpu i gofnodi eich adborth.

74. Cewch ddewis casglu mwy o adborth, ond er mwyn bodloni'r gofyniad ail-ddilysu, dim ond nodi manylion pum darn o adborth y mae angen i chi ei wneud.

75. Rhaid i chi beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw'n fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16 yn cynnwys canllawiau ar sut mae sicrhau nad yw eich nodiadau yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

76. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad adborth.



# ADRODDIADAU MYFYRIOL YSGRIFENEDIG

## Y gofyniad

74. Mae'n rhaid i chi fod wedi paratoi pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig yn ystod y tair blynedd ers i'ch cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf neu ers i chi ymuno a'r gofrestr. Mae'n rhaid cofnodi pob adroddiad yn y ffurf sydd wedi'i gymeradwyo ac mae'n rhaid iddo gyfeirio at:

- enghraifft o'ch DPP, a/neu
- darn o adborth yn ymwneud â gwaith yr ydych wedi'i dderbyn, a/neu
- digwyddiad neu brofiad yn eich gwaith proffesiynol eich hun a sut mae hwn yn berthnasol i'r Cod

## Pwrpas y gofyniad hwn

75. Rydym am i chi gymryd rhan mewn ymarfer myfyriol er mwyn i chi ganfod unrhyw newidiadau neu welliannau y gallwch eu gwneud i'ch ymarfer yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi ei ddysgu.

76. Dylai'r gofyniad hwn hefyd godi ymwybyddiaeth o'r Cod a'ch annog chi i ystyried rôl y Cod yn eich ymarfer a'ch datblygiad proffesiynol.

## Sut i fodloni'r gofyniad

77. Gall pob adroddiad myfyriol fod am enghraifft o'ch datblygiad proffesiynol parhaus, adborth, digwyddiad neu brofiad yn eich ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu gyfuniad o'r rhain. Dylid myfyrio ar brofiadau cadarnhaol a negyddol. Gall unrhyw brofiad, gan gynnwys sgwrs â chydweithiwr, digwyddiad clinigol neu broffesiynol pwysig neu gyfnod o amser arwain at ddysgu, syniadau ac adroddiadau myfyriol ystyrlon. Er enghraifft, gallech baratoi adroddiad myfyriol ar bwnc penodol a all fod wedi codi yn sgil adborth a gafodd eich tîm ar ôl digwyddiad, fel caniatâd a chyfrinachedd a chanfod sut mae hynny'n berthnasol i'r Cod.



## Sut i gofnodi eich adroddiadau myfyriol

78. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen rydym wedi ei darparu i gofnodi eich adroddiadau myfyriol. Mae'n rhaid i chi egluro beth rydych wedi ei ddysgu o'ch gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus, adborth, digwyddiad neu brofiad, sut rydych chi wedi newid neu wella eich ymarfer o ganlyniad a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod.
79. Gall y ffurflen hon fod wedi ei hysgrifennu â llaw, wedi ei theipio, neu wedi ei harddywedyd os oes angen.
80. Cofiwch beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth yn eich adroddiadau myfyriol, y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw'n fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16 yn cynnwys canllawiau ar sut mae sicrhau nad yw eich adroddiadau myfyriol yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.
81. Nid oes angen i chi gyflwyno copi o'ch adroddiadau myfyriol i'r NMC at ddibenion ail-ddilysu. Ond, dylech gadw'r rhain fel cofnodion a fydd yn sail ar gyfer eich trafodaeth fyfyriol ac er mwyn eu dangos i'ch cadarnhäwr.

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

82. Rhaid i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad adroddiadau myfyriol ysgrifenedig.

# TRAFODAETH FYFYRIOL

## Y gofyniad

86. Mae'n rhaid eich bod wedi cael trafodaeth adlewyrchol gydag aelod arall o gofrestr NMC, gan roi sylw i'ch pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig a'ch DPP a/neu adborth yn ymwneud a gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich gwaith a sut mae hwn yn berthnasol i'r Cod.[16]

87. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y sawl sydd wedi cofrestru gyda'r NMC yr ydych yn cael eich trafodaeth fyfyriol ag ef neu hi, yn llofnodi'r ffurflen gymeradwy sy'n cofnodi ei enw, Pin NMC, e-bost, cyfeiriad a chod post proffesiynol a dyddiad y drafodaeth.[17]

## Diben y gofyniad hwn

88. Bydd y gofyniad hwn yn annog diwylliant o rannu, myfyrio a gwella. Mae'n gwneud hyn drwy fynnu eich bod yn trafod datblygu a gwella eich hun yn broffesiynol, a drwy sicrhau nad ydych yn ymarfer mewn unigedd proffesiynol.

## Sut mae bodloni'r gofyniad

89. Mae'n rhaid i chi drafod eich pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig â rhywun arall sydd ar ein cofrestr fel rhan o drafodaeth fyfyriol. Yn y drafodaeth, byddwch chi a'ch partner trafod myfyriol yn cysylltu eich adroddiad myfyriol â'r Cod, felly mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â'r safonau proffesiynol yn y Cod a'ch bod yn gweithio tuag atynt.

90. Y partner ar gyfer trafodaeth fyfyriol:

- rhaid iddo/iddi fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd â chofrestriad gweithredol â'r NMC. Hynny yw, ni ddylai fod yn destun unrhyw fath o orchymyn atal, dileu enw na diddymu aelodaeth ar adeg y drafodaeth
- gall fod yn rhywun rydych chi'n gweithio ag ef/hi yn aml neu'n rhywun o rwydwaith proffesiynol neu grŵp dysgu
- nid oes yn rhaid iddo/iddi fod yn rhywun rydych chi'n gweithio ag ef/hi bob dydd
- nid oes yn rhaid iddo/iddo wneud yr un math o ymarfer â chi, ac
- nid oes yn rhaid iddo/iddi fod yn yr un adran ar y gofrestr â chi (felly gall nyrs gael trafodaeth fyfyriol â bydwraig ac fel arall).

91. Os ydych chi'n ymarfer mewn lleoliad heb nyrsys, bydwragedd na chymdeithion nyrsio o gwbl neu sydd ddim ond ag ychydig ohonynt, gallwch holi cydweithwyr sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, yn eich rhwydwaith proffesiynol neu arbenigol ehangach, er mwyn i chi gael eich trafodaeth fyfyriol.

92. Chi fydd yn gyfrifol am benderfynu pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i chi gael y drafodaeth hon ag ef/hi, gan gynnwys a yw mewn swydd uwch neu is na chi.

93. Os yw eich cadarnhäwr wedi cofrestru gyda'r NMC, gall eich trafodaeth fyfyriol fod yn rhan o'r drafodaeth gadarnhau. Os nad yw eich cadarnhäwr ar ein cofrestr, bydd angen i chi gael eich trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r NMC cyn i chi gynnal eich trafodaeth gadarnhau gyda'r sawl sy'n cadarnhau.

94. Rydym yn disgwyl y bydd y drafodaeth hon yn drafodaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliad addas.

95. Os na fyddwch yn gallu cael trafodaeth wyneb yn wyneb am unrhyw reswm, gallech drefnu cynhadledd fideo.

96. Ni ddylech drafod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth na chydweithwyr mewn ffordd a allai ddatgelu pwy ydyn nhw yn ystod eich trafodaeth, oni bai eu bod wedi cytuno i hynny. I gael rhagor o wybodaeth am drafodaethau myfyriol, ewch i'r adran canllawiau a gwybodaeth.

## Sut i gofnodi eich trafodaeth fyfyriol

97. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC rydym wedi ei darparu i gofnodi eich trafodaeth. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio rydych wedi cael eich trafodaeth fyfyriol ag ef/hi yn llofnodi'r ffurflen ac yn nodi'r wybodaeth ganlynol arni: enw, Pin NMC, e-bost, cyfeiriad proffesiynol, gan gynnwys y cod post, rhif cyswllt, dyddiad y drafodaeth a chrynodeb o'r drafodaeth.[18] Dylech gadw'r ffurflen wedi ei llenwi a'i llofnodi.

98. Cofiwch beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth yn adran crynodeb o'r drafodaeth ar eich ffurflen, y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw'n fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun ar dudalennau 14-16 yn cynnwys canllawiau ar sut mae sicrhau nad yw eich nodiadau yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

99. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi cael trafodaeth fyfyriol â nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda'r NMC.

100. Hefyd, bydd angen i chi roi enw, Pin NMC, e-bost, cyfeiriad proffesiynol, gan gynnwys y cod post a rhif cyswllt eich partner ar gyfer trafodaeth fyfyriol, yn ogystal a'r dyddiad y cawsoch eich trafodaeth fyfyriol.

# IECHYD A CHYMERIAD

## Y gofynion

96. Mae'n rhaid i chi ddarparu datganiad iechyd a chymeriad.[16]

97. Mae'n rhaid i chi ddatgan os ydych chi wedi eich cael yn euog o unrhyw gyhuddiad neu rybudd gan yr heddlu neu euogfarn neu ryddhad amodol.[20]

98. Gofynnir i chi ddatgan os oes corff rheoleiddio (gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu'r proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol) erioed wedi penderfynu bod rhywbeth yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.[21]

## Diben y gofynion hyn

99. Bydd y gofynion hyn yn helpu i fodloni'r Cofrestrydd eich bod yn gallu ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

## Sut i fodloni'r gofynion

100. Bydd angen i chi gwblhau'r datganiadau hyn fel rhan o'ch cais ail-ddilysu.

101. Pan fyddwch yn gwneud y datganiadau hyn, darllenwch ein canllawiau ar iechyd a chymeriad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

102. Mae eich cymeriad yn bwysig ac yn ganolog i'r Cod oherwydd mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fod yn unigolion onest y gellir ymddiried ynddynt. Mae eich cymeriad yn seiliedig ar eich ymddygiad a'ch agwedd. Pan fyddwch yn datgan eich bod o gymeriad da, dylech ystyried a ydych erioed wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n golygu torri gofynion y Cod. Mae'r Cod ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan: **nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-code-welsh.pdf**. Darllenwch ein canllawiau ar iechyd a chymeriad i gael rhagor o wybodaeth.

103. Hefyd, gofynnir i chi ddatgan a oes unrhyw gorff proffesiynol neu reoleiddio (gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu'r proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol) erioed wedi penderfynu bod rhywbeth yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.[22]

104. Yn unol â'r Cod, rydym yn disgwyl i chi ddatgelu unrhyw gyhuddiad, rhybudd, euogfarn neu ryddhad amodol gan yr heddlu i'r NMC ar unwaith. Peidiwch ag aros nes bydd hi'n amser i chi ail-ddilysu.[23] Mae euogfarn neu rybudd yn cynnwys euogfarn neu rybudd rydych wedi ei gael yn y DU am drosedd, yn ogystal ag euogfarn a gafwyd mewn man arall am rywbeth a fyddai'n cael ei hystyried yn drosedd pe byddai hynny wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr.[24] Peidiwch â rhoi gwybod i'r NMC am unrhyw droseddau moduro, oni bai eu bod wedi arwain at eich gwahardd rhag gyrru neu droseddau sydd wedi cael eu hystyried gan yr NMC yn flaenorol. Darllenwch ein canllawiau ar iechyd a chymeriad i gael rhagor o wybodaeth.

105. Mae arnom angen gwybod bod y bobl sy'n gwneud cais i adnewyddu eu cofrestriad yn bodloni ein gofynion o ran iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

106. Mae'n bwysig cofio, pan fyddwn ni'n sôn am 'iechyd da', ein bod ni'n golygu eich bod chi'n gallu ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, naill ai gydag addasiadau rhesymol neu addasiadau gan eich cyflogwr, neu heb addasiadau o'r fath.

107. Rydym yn canolbwyntio ar a oes gennych chi gyflwr iechyd a/neu anabledd a allai effeithio ar eich ymarfer. Mae hyn oherwydd bod angen i ni asesu a allai hynny beri risg i ddiogelwch y bobl rydych yn gofalu amdanynt.

108. Nid yw'n golygu peidio â bod â chyflwr iechyd a/neu anabledd. Mae nifer o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd yn gallu ymarfer gydag addasiadau y mae cyflogwyr wedi'u darparu ar eu cyfer, neu hebddynt.

109. Chi sydd i benderfynu a yw eich iechyd yn golygu eich bod yn gallu ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Os ydych chi'n fodlon â'ch penderfyniad, nid oes angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth i ni, heblaw am eich datganiad (darllenwch yr adran isod).

## Sut i gofnodi datganiadau iechyd a chymeriad

110. Os yw eich iechyd a'ch cymeriad yn caniatáu i chi ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol â'r Cod, ac os nad oes gennych unrhyw gyhuddiad, rhybudd, euogfarn, rhyddhad amodol na phenderfyniad i'w datgelu, nid oes angen i chi gadw unrhyw wybodaeth fel rhan o'r gofyniad hwn. Nid oes angen i'ch cadarnhäwr wirio eich bod wedi bodloni'r gofyniad hwn.

111. Os byddwch angen datgan unrhyw gyhuddiad, rhybudd, euogfarn, rhyddhad amodol neu benderfyniad, bydd angen i chi gadw tystiolaeth er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i ni.

> Mae Paragraff 23.2 y Cod yn nodi fod yn rhaid i chi roi gwybod i ni ac unrhyw gyflogwyr yr ydych yn gweithio iddyn nhw ar y cyfle cyntaf rhesymol am unrhyw rybudd neu gollfarn yn eich erbyn, neu os ydych wedi derbyn rhyddhad amodol mewn perthynas â throsedd, neu eich bod wedi eich cael yn euog (oni bai am rybudd neu gollfarn wedi'u gwarchod)

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

112. Mae gofyn i chi ddatgan bod eich iechyd a'ch cymeriad yn eich galluogi chi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol â'r Cod. Darllenwch ein canllawiau ar iechyd a chymeriad.

113. Gofynnir i chi ddatgan a oes gennych chi gyhuddiad, rhybudd, euogfarn neu ryddhad amodol, ac eithrio'r rhai a warchodir. Nid oes rhaid i chi ddweud wrthym am rybuddion ac euogfarnau a warchodir. Mae'r rhain yn fân droseddau na fyddant yn cael eu datgelu gan archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid yw troseddau a restrir yn cael eu gwarchod a rhaid eu datgelu i ni bob amser. Edrychwch ar restr lawn y DBS ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae'r gwasanaeth datgelu a gwahardd yn cael ei redeg gan Disclosure Scotland.

# TREFNIADAU INDEMNIAD PROFFESIYNOL

## Y gofyniad

119. Mae'n rhaid i chi ddatgan fod gennych, neu y bydd gennych pan fyddwch yn gweithio, sicrwydd o dan drefniad digolledu.[25]

## Diben y gofyniad hwn

120. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi fod â threfniant indemniad priodol ar waith er mwyn ymarfer a darparu gofal. Er nad oes angen i chi ddal y trefniant yn unigol, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yswiriant priodol ar waith.

## Sut i fodloni'r gofyniad

121. Bydd angen i chi lenwi'r datganiad hwn fel rhan o'ch cais ail-ddilysu.

122. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn darparu yswiriant indemniad priodol ar gyfer eu gweithwyr. Os ydych chi'n gyflogedig, dylech wirio hyn gyda'ch cyflogwr/cyflogwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan NHS Employer

123. Trowch at ein gwybodaeth am drefniadau indemniad proffesiynol wrth wneud y datganiad hwn. Mae'r ddogfen hon yn diffinio 'darpariaeth briodol' ac yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y rhai sydd wedi eu cyflogi, sy'n hunangyflogedig neu sy'n ymgymryd â gwaith mewn rolau cyflogedig a hunangyflogedig. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth i'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg, sy'n gwneud gwaith gwirfoddol, neu sy'n cymryd seibiant o'u hymarfer.

124. Os canfyddir eich bod yn ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio heb drefniant indemniad priodol ar waith, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac ni fyddwch yn gallu ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

## Sut i gofnodi eich trefniant indemniad proffesiynol

125. Bydd eich datganiad yn cael ei wneud fel rhan o'ch cais ail-ddilysu.

126. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cadw tystiolaeth bod gennych chi drefniant priodol ar waith.

127. Os darperir eich trefniant trwy aelodaeth o gorff proffesiynol neu drefniant yswiriant preifat, dylai eich datganiad fod yn seiliedig ar gael trefniant indemniad ar waith sy'n darparu 'yswiriant priodol' mewn perthynas â'ch cwmpas ymarfer unigol, fel yr eglurwyd ar ein gwefan ac yn y canllawiau ar drefniadau indemniad proffesiynol. Noder y bydd angen i chi gyfiawnhau penderfyniadau ar yr yswiriant rydych chi'n ei roi ar waith neu'n dibynnu arno, os byddwn yn gofyn i chi wneud hynny.

128. Nid oes angen i'ch cadarnhäwr wirio eich bod wedi bodloni'r gofyniad hwn.

## Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

129. Mae angen i chi roi gwybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a yw eich trefniant indemniad drwy eich cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol, neu drefniant yswiriant preifat. Fel arall, gallwch roi gwybod i ni nad ydych yn ymarfer ar hyn o bryd ond eich bod yn bwriadu cael yswiriant priodol cyn i chi ymarfer.

130. Mae'n ofynnol i chi gael yswiriant priodol ar gyfer eich holl leoliadau ymarfer cyfredol. Os ydych chi'n ymarfer mewn mwy nag un lleoliad ar hyn o bryd, dywedwch wrthym yn gyntaf am eich trefniant mewn perthynas â'ch prif leoliad ymarfer. Yna ychwanegwch drefniadau eraill i gwmpasu eich holl leoliadau ymarfer cyfredol.

131. Os darperir eich trefniant indemniad drwy fod yn aelod o gorff proffesiynol neu drwy drefniant yswiriant preifat, gofynnir i chi roi enw'r corff neu'r darparwr proffesiynol.[26]



# CADARNHAD

## Y broses

132. Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth at ddibenion gwirio'r datganiadau yr ydych wedi eu gwneud yn eich cais.[27]

133. Datganiad fydd hwn yn nodi eich bod wedi arddangos i gadarnhäwr priodol eich bod wedi cydymffurfio a'r gofynion ail-ddilysu. Rydym wedi darparu ffurflen i chi ei defnyddio i gael y wybodaeth hon.

134. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu enw, pin NMC neu rif adnabod proffesiynol arall (lle bo'n briodol), e-bost, cyfeiriad proffesiynol a chod post y cadarnhäwr.

## Diben cadarnhau

135. Mae cadarnhad yn cwmpasu nifer o fanteision i chi. Bydd yn rhoi sicrwydd, yn cynyddu cymorth ac ymgysylltu rhyngoch chi a'ch cadarnhäwr, ac yn eich gwneud chi'n fwy atebol am eich ymarfer a'ch gwelliant eich hun. Dylai eich cynorthwyo drwy gynyddu mynediad at werthusiadau.

136. Dylai natur ryngweithiol y broses gadarnhau leihau unigedd proffesiynol ac annog diwylliant o rannu, myfyrio a gwella.

137. Yn y pen draw, mae'r broses gadarnhau wedi ei chynllunio i gynyddu proffesiynoldeb drwy wneud nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn fwy atebol am eu hymarfer a'u gwelliant. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn rhoi haen ychwanegol o sicrwydd i ni fod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cydymffurfio â'r gofynion ail-ddilysu.

138. Nid yw cadarnhau yn ffordd newydd i gyflogwyr godi pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Nid yw cadarnhau yn fater o gyflogwyr yn barnu a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i ymarfer nac yn asesiad yn erbyn gofynion eu cyflogaeth bresennol neu flaenorol. Dylid codi pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn brydlon drwy ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Gwybodaeth ar ein gwefan am ein prosesau addasrwydd i ymarfer.

## Sut i gael cadarnhad

139. Mae'r broses gadarnhau yn golygu cael trafodaeth am eich ail-ddilysiad gyda chadarnhäwr priodol. Rydym yn argymell eich bod chi'n cael cadarnhad drwy drafodaeth wyneb yn wyneb neu fideo-gynadledda.

140. Fel rhan o'r drafodaeth honno, byddwch yn dangos i'r cadarnhäwr hwnnw eich bod chi wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ail-ddilysu, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â threfniant indemniad proffesiynol ac iechyd a chymeriad, fel y nodir yn y canllaw hwn.

141. Rydym yn argymell eich bod chi'n cael eich cadarnhad yn ystod 12 mis olaf y cyfnod adnewyddu o dair blynedd i sicrhau cadarnhad diweddar. Os cewch gadarnhad yn gynharach, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi esbonio pam.

142. Os yw eich cadarnhäwr yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gall eich trafodaeth fyfyriol fod yn rhan o'r drafodaeth gadarnhau. Os nad yw eich cadarnhäwr ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, bydd angen i chi gael eich trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth cyn i chi gynnal eich trafodaeth gadarnhau gyda'r sawl sy'n cadarnhau.

143. Rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth am rôl y cadarnhawyr yn ein dogfen ganllaw Information for confirmers, a dylech sicrhau bod eich cadarnhäwr wedi darllen y ddogfen hon.

# Cadarnhäwr priodol

144. Mae eich rheolwr llinell yn gadarnhäwr priodol, ac rydym yn argymell yn gryf eich bod

145. chi'n cael cadarnhad gan eich rheolwr llinell lle bynnag y bo modd. Nid oes rhaid i reolwr llinell fod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Er enghraifft, gallai fod yn rheolwr practis meddyg teulu neu'n rheolwr cartref gofal yn eich gweithle.

146. Os nad oes gennych chi reolwr llinell, bydd angen i chi benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i roi eich cadarnhad. Lle bynnag y bo modd, rydym yn argymell fod y sawl sy'n eich cadarnhau yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'n ddefnyddiol os ydynt wedi gweithio gyda chi neu â chwmpas ymarferol tebyg, ond nid yw hyn yn hanfodol.

147. Os nad yw hynny'n bosibl, gallwch ofyn am gadarnhad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall rydych chi'n gweithio gydag ef/hi ac sy'n cael ei reoleiddio yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, gallech ofyn i feddyg, deintydd neu fferyllydd. Bydd angen i chi gofnodi eu proffesiwn a'u rhif adnabod neu rif cofrestru proffesiynol.

148. Os nad oes gennych chi reolwr llinell, neu fynediad at rywun ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, edrychwch ar ein teclyn cadarnhau ar-lein i gael arweiniad pellach ynghylch pwy all weithredu fel cadarnhäwr yn y sefyllfa hon yn **revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation**.

149. Os yw eich cadarnhäwr yn nyrs sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn gydymaith nyrsio, yn fydwraig, mae'n rhaid iddynt feddu ar gofrestriad gweithredol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ni fyddwn yn gallu gwirio eich cais os darparwyd eich cadarnhad gan un a oedd yn destun unrhyw fath o orchymyn atal, dileu enw diddymu aelodaeth o'r gofrestr ar adeg gwneud y cadarnhad.

# Cael cadarnhad os ydych chi'n gweithio dramor yn gyfan gwbl

150. Os ydych chi'n gweithio'n gyfan gwbl dramor, gallwch ofyn am gadarnhad gan eich rheolwr llinell lle'r ydych chi'n gwneud eich gwaith.

151. Os nad oes gennych chi reolwr llinell, bydd angen i chi benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cadarnhad i chi. Lle bynnag y bo modd, argymhellwn fod eich cadarnhad yn dod gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio a reoleiddir lle'r ydych chi'n ymarfer, neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a reoleiddir. Mae ein teclyn cadarnhau ar-lein yn rhoi rhagor o arweiniad o ran pwy all weithredu fel cadarnhäwr yn y sefyllfa hon.

# Cael cadarnhad os oes gennych chi fwy nag un rheolwr llinell

152. Os oes gennych chi fwy nag un cyflogwr neu os ydych chi'n ymgymryd â mwy nag un rôl, dim ond un cadarnhad sydd ei angen arnoch. Bydd angen i chi benderfynu pa reolwr llinell sydd fwyaf priodol i roi cadarnhad eich bod chi wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu.

153. Rydym yn argymell eich bod chi'n cael eich trafodaeth ail-ddilysu ac yn cael cadarnhad drwy'r rheolwr llinell lle'r ydych chi'n gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Gallech ddewis cael

154. trafodaeth ail-ddilysu gyda phob un o'ch rheolwyr llinell, a dod ag allbynnau'r trafodaethau hynny at y rheolwr llinell rydych chi'n teimlo sydd fwyaf priodol i fod yn gadarnhäwr.

# Cadarnhad ac arfarniadau

155. Cynlluniwyd y broses ail-ddilysu fel y gall ffurfio rhan o broses arfarnu, a lle bo'n bosibl argymhellwn eich bod yn defnyddio eich arfarniad blynyddol i drafod eich cynnydd o ran eich gofynion ail-ddilysu a phryd rydych chi'n barod i gael cadarnhad.

156. Os yw eich rheolwr llinell yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, fe allech chi ddewis cynnal eich trafodaeth fyfyriol ar yr un pryd â'ch trafodaeth gadarnhau fel rhan o'ch gwerthusiad blynyddol.

157. Fodd bynnag, nid yw cael eich cadarnhad fel rhan o werthusiad yn un o ofynion ail-ddilysu.

# Sut i gofnodi cadarnhad

158. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gofnodi eich cadarnhad. Bydd angen i'ch cadarnhäwr lenwi a llofnodi'r ffurflen hon.

159. Dylech gadw'r ffurflen sydd wedi ei llenwi a'i llofnodi.

# Yr hyn y mae angen i chi ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

160. Gofynnir i chi roi enw, rhif adnabod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu rif adnabod proffesiynol arall (lle bo'n berthnasol), e-bost, cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys y cod post a rhif cyswllt eich cadarnhäwr. Os nad eich rheolwr llinell neu unigolyn ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw eich cadarnhäwr, bydd angen i chi hefyd ddarparu manylion am ei broffesiwn a'i reoleiddiwr.

161. Byddwn hefyd yn gofyn i chi a ydych chi'n cael arfarniad rheolaidd ac a oes gennych chi reolwr llinell sy'n nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel ein bod yn deall pa lefel o gymorth oedd ar gael i chi wrth gwblhau eich cais ail-ddilysu.

# Y BROSES YMGEISIO

## Cyn i chi wneud cais

**162. Agorwch gyfrif NMC Online**
Bydd angen i chi gyflwyno eich cais drwy NMC Online. Gallwch hefyd wirio eich dyddiad adnewyddu a dyddiad eich cais am ail-ddilysu ar NMC Online. Rydym wedi cyhoeddi canllaw cam wrth gam i gofrestru ar NMC Online yn **www.nmc.org.uk/registration/nmc-online**.

> Unwaith y byddwch wedi creu eich cyfrif ar-lein, byddwch yn derbyn hysbysiadau dilynnol ar e-bost. Ychwanegwch NMC fel anfonwr diogel a gwiriwch eich e-byst yn rheolaidd yn ystod y broses ail-ddilysu.

**163. Cofiwch gadw eich manylion cyswllt yn gyfoes fel bod modd i ni roi gwybod i chi pan ddaw'r amser i chi gyflwyno eich cais ail-ddilysu.**
Y rheswm mwyaf cyffredin dros fethu ag ail-ddilysu yw methu rhoi gwybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am eich manylion cyswllt diweddaraf.

**164. Gofalwch eich bod chi'n gwybod pa bryd y bydd angen cwblhau eich cais ail-ddilysu.**
Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais erbyn y dyddiad y byddwn ni'n ei nodi. Os na fyddwch chi'n cyflwyno eich cais erbyn y dyddiad hwn, mae'n bosibl y byddwch chi'n effeithio ar ein gallu i brosesu eich cais ail-ddilysu, ac mae'n bosibl y bydd adnewyddu eich cofrestriad mewn perygl o ganlyniad.

**165. Gofalwch bod gennych chi eich holl dystiolaeth ategol wrth law pan fyddwch chi'n dechrau eich cais ar-lein.**
Cysylltwch â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ymhell cyn dyddiad eich cais am ail-ddilysu os ydych chi angen addasiad ar gyfer defnyddio NMC Online (gweler yr adran Gymorth i'ch helpu i ail-ddilysu'r adran isod).

## Y cais ar-lein

166. Mae eich cais ar-lein yn agor 60 diwrnod cyn dyddiad eich cais ail-ddilysu.

167. Yn ystod y cyfnod hwn o 60 diwrnod bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cais drwy NMC Online a rhoi sylw i bob un o'r gofynion.

168. Peidiwch â chyflwyno eich cais nes eich bod chi wedi bodloni'r holl ofynion ail-ddilysu.

### Cysylltu â'ch cyflogwr neu unrhyw drydydd parti perthnasol arall

169. Fel rhan o'ch proses ymgeisio, mae'n bosibl y bydd angen i ni gysylltu â'ch cyflogwr neu unrhyw drydydd parti perthnasol arall a all wirio'r wybodaeth rydych chi wedi ei darparu yn eich cais[28].

170. Yn eich cais ar-lein, gofynnir i chi roi caniatâd at y diben hwn.

### Gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth

171. Fel rhan o'r broses ymgeisio ar-lein, bydd gofyn i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn defnyddio'r data hwn i fonitro ein gwasanaethau fel y gallwn eich cefnogi chi a sicrhau ein bod ni'n trin pawb mewn ffordd deg a chyfartal. Mae'r cwestiynau wedi cael eu cynllunio i gasglu data am ein defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r nodweddion a ddiogelir yn unol â'r gyfraith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

172. Byddwn yn cadw'r wybodaeth o'r holiadur hwn yn gyfrinachol ac yn ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Pholisi Diogelu Data'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Drwy gyflwyno'r wybodaeth bersonol sensitif hon i ni, rydych chi'n cydsynio'n benodol i ni gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol sensitif yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

173. Mae darparu'r wybodaeth hon yn ddewisol ac ni fydd yn effeithio ar eich cais ail-ddilysu nac ar adnewyddu eich cofrestriad. Pe bai'n well gennych chi beidio â datgelu'r wybodaeth hon gallwch ddewis 'mae'n well gennyf beidio â dweud' ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau.

> Mae manylion am ein Polisi Gwarchod Data wedi'u cynnwys yn ein hysbysiad preifatrwydd ar **www.nmc.org.uk/privacy.**

### Talu eich ffi

174. Ochr yn ochr â'ch cais ail-ddilysu, bydd yn rhaid i chi dalu eich ffi gofrestru flynyddol bob blwyddyn er mwyn parhau i fod wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ni fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu nes ein bod ni wedi derbyn eich taliad.

175. Trowch at ein canllawiau ar dalu eich ffioedd yn **www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/paying-your-fee**. Mae hwn yn nodi'r gwahanol ffyrdd y gallwch dalu, gan gynnwys drwy ddebyd uniongyrchol a cherdyn debyd neu gredyd, yn ogystal â sut i dalu eich ffi mewn pedwar rhandaliad chwarterol.

176. Fel talwr treth cofrestredig yn y Deyrnas Unedig gallwch hawlio rhyddhad treth ar ffioedd cofrestru'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn caniatáu i unigolion hawlio rhyddhad treth ar danysgrifiadau proffesiynol neu ffioedd y mae'n rhaid eu talu er mwyn cyflawni swydd. Mae'r ffi gofrestru a dalwch i ni wedi ei chynnwys yn y categori hwn. Trowch at ein canllawiau ar sut i hawlio rhyddhad treth ar eich ffi yn **www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/tax-relief**.

# Ar ôl i chi gwblhau eich cais

177. Ar ôl i chi gwblhau eich cais ar-lein byddwch yn cael cynnig argraffu copi papur o'ch cais ar gyfer eich cofnodion.

178. Unwaith y bydd eich cais wedi cael ei brosesu'n llwyddiannus a bod eich taliad wedi cael ei dderbyn, byddwn yn anfon e-bost atoch yn cadarnhau bod eich cofrestriad wedi ei adnewyddu.

179. Rydym yn eich cynghori i chwilio'r gofrestr ar ein gwefan i wirio eich statws.

# Cymorth i’ch helpu i ail-ddilysu

180. Rydym yn deall y gall fod amgylchiadau sy’n ei gwneud yn anoddach i chi gwrdd â’r gofynion ail-ddilysu. Gall hyn fod o ganlyniad i anabledd, salwch, beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth neu unrhyw ddigwyddiad bywyd arall sy’n effeithio ar eich gallu i gwrdd â’r gofynion ail-ddilysu.

181. Gallwn eich cynorthwyo i fodloni’r gofynion ail-ddilysu mewn sawl ffordd - er enghraifft, drwy:

- eich helpu i ddefnyddio NMC Online, neu
- ddarparu estyniad byr i ddyddiad eich cais.[29]

Am ragor o wybodaeth ynghylch y cymorth y gallwn ni ei gynnig a sut i wneud cais am y cymorth hwn, gweler ein taflen ganllaw i’ch helpu chi i ail-ddilysu

# GWIRIO EICH CAIS

182. Bob blwyddyn byddwn yn dewis sampl o geisiadau ail-ddilysu ac yn gofyn am ragor o wybodaeth fel y gallwn wirio'r wybodaeth a ddarperir.[30] Nid yw cais o'r fath o reidrwydd yn golygu bod unrhyw bryder ynghylch eich cais, a gallwch barhau i ymarfer tra byddwn yn adolygu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu.

183. Byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost o fewn 24 awr i chi gyflwyno eich cais ail-ddilysu os ydych chi wedi cael eich dewis i ddarparu rhagor o wybodaeth, a lle bo'n bosibl byddwn yn rhoi gwybod i chi'n syth ar ôl i chi gyflwyno eich cais drwy NMC online. Cofiwch wirio eich e-bost yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys ffolderi e-bost sothach.

184. Os cewch eich dewis i ddarparu rhagor o wybodaeth, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein lle gofynnir i chi ddarparu rhagor o wybodaeth. Gallwn hefyd ofyn am ragor o dystiolaeth. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon o fewn 21 diwrnod i dderbyn eich hysbysiad eich bod chi wedi cael eich dewis ar gyfer y broses wirio.

185. Ni fydd eich cofrestriad yn dod i ben yn ystod y broses wirio, hyd yn oed os yw'r broses yn ymestyn y tu hwnt i'ch dyddiad adnewyddu. Bydd eich cofrestriad yn parhau i fod yn gymwys yn ein golwg ni nes bydd y broses wirio wedi ei chwblhau, ac fel arfer gallwch barhau i ymarfer yn ystod y cyfnod hwn.

186. Mae'r tabl isod yn nodi'r wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu os cewch eich dewis i ddarparu rhagor o wybodaeth. Dylai'r wybodaeth hon fod yn eich meddiant yn barod, felly ni ddylai fod angen i chi geisio unrhyw wybodaeth ychwanegol.

187. Byddwn yn cysylltu â'ch cadarnhäwr i ofyn am ragor o wybodaeth gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gennych yn eich cais. Cysylltwch â ni os bydd eich cadarnhäwr angen addasu'r ffordd rydym yn cysylltu ag ef/hi. Sicrhewch fod eich cadarnhäwr yn ymwybodol, os na fydd yn ymateb i'n cais am wiriad, y gallai hynny roi eich cofrestriad mewn perygl. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn cysylltu â'ch cyflogwr a'ch partner trafod myfyriol.

188. Os byddwn yn nodi nad ydych wedi cwrdd â'r gofynion ail-ddilysu, neu os ydych chi wedi cyflwyno gwybodaeth dwyllodrus, gallai eich cofrestriad fod mewn perygl. Sylwer, os na fyddwch yn ymgysylltu'n llawn â'r broses wirio, gallai eich cofrestriad ddod i ben a byddai'n rhaid i chi ymgeisio o'r newydd.

189. Cwblheir y broses wirio o fewn tri mis i'ch dyddiad adnewyddu.

# Gwybodaeth am wirio

## Oriau ymarfer

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn, gan ddechrau gyda'ch ymarfer diweddaraf nes byddwch yn dangos isafswm yr oriau ymarfer yn ystod y cyfnod ail-ddilysu o dair blynedd:

- dyddiadau'r ymarfer
- nifer yr oriau y gwnaethoch eu cyflawni
- enw, cyfeiriad a chod post y sefydliadau
- cwmpas yr ymarfer a'r lleoliad gwaith (gweler y blwch cyngor ar dudalen 20)
- disgrifiad o'r gwaith y gwnaethoch chi ei gyflawni, ac
- os ydych chi'n ymarfer dramor, a ydych chi wedi cofrestru gyda'r corff rheoleiddio priodol.

Mae'n bosibl y gwnawn ni gysylltu â'ch cyflogwr am ragor o wybodaeth, ac mae'n bosibl y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth bellach o oriau ymarfer a sut roedd hyn yn dibynnu ar eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Os ydych chi'n defnyddio cwrs dychwelyd i ymarfer wedi ei gwblhau ar gyfer eich gofyniad oriau ymarfer, neu os ydych wedi cael eich derbyn i ran arall o'r gofrestr ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ymuno â'r gofrestr yn y lle cyntaf, gweler ein canllaw ar ddychwelyd i ymarfer a chofrestriadau newydd **www.revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information** am ragor o wybodaeth.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- dull y datblygiad proffesiynol parhaus
- disgrifiad cryno o'r pwnc a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer
- dyddiadau'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus
- nifer yr oriau a'r oriau cymryd rhan, a
- nodi pa ran o'r Cod sydd fwyaf perthnasol i'r datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'n bosibl hefyd y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'r gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus

## Trafodaeth fyfyriol

Ni fyddwn yn gofyn i chi lwytho copi o'r ffurflen trafod myfyriol wedi ei llofnodi; fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â'ch partner trafod myfyriol ynghylch eich trafodaeth.

## Trefniant indemniad proffesiynol

Mae'n ofynnol i chi gael yswiriant priodol ar gyfer eich holl leoliadau ymarfer cyfredol. Os darperir eich trefniant drwy fod yn aelod o gorff proffesiynol neu drwy drefniant yswiriant preifat, gofynnir i chi gadarnhau a) eich bod wedi darllen a deall ein gwybodaeth am drefniadau indemniad proffesiynol; b) bod gennych drefniant indemniad ar waith sy'n darparu "yswiriant priodol" mewn perthynas â'ch cwmpas ymarfer unigol, fel yr eglurir yn ein canllawiau, **Trefniadau indemniad proffesiynol**; ac c) eich bod yn deall y bydd angen i chi gyfiawnhau penderfyniadau ar yswiriant rydych chi'n eu rhoi ar waith neu'n dibynnu arnynt, os byddwn yn gofyn i chi wneud hynny. Os ydych chi'n ymarfer mewn mwy nag un lleoliad ar hyn o bryd, dywedwch wrthym yn gyntaf am eich trefniant mewn perthynas â'ch prif leoliad ymarfer, ac yna unrhyw drefniant arall ar gyfer eich holl leoliadau ymarfer cyfredol.

## Cadarnhad

Ni fyddwn yn gofyn i chi lwytho i fyny gopi o'r ffurflen gadarnhau wedi ei llofnodi; fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â'ch cadarnhäwr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roesoch i ni yn eich cais cychwynnol, felly sicrhewch fod y rhain yn gywir. Sicrhewch fod eich cadarnhäwr yn ymwybodol, os na fydd yn ymateb i'n cais am wiriad, y gallai hynny roi eich cofrestriad mewn perygl.

# PROSESAU AIL-DDILYSU AC ADDASRWYDD I YMARFER YR NMC



190. Os bydd cyflogwr, nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu unrhyw unigolyn arall yn dod yn ymwybodol o bryder difrifol ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, dylent godi'r mater yn brydlon drwy ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Mae gan bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ddyletswydd broffesiynol i fynegi pryder ynghylch ymarfer unigolyn sydd ar ein cofrestr naill ai drwy eu cyflogwr neu yn uniongyrchol gyda ni.

191. Nid yw ail-ddilysu yn creu ffordd newydd o godi pryder am addasrwydd i ymarfer ynghylch nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio. Ni ddylech aros nes daw'r amser i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio adnewyddu aelodaeth cyn codi pryder.

**Am ragor o wybodaeth ynghylch sut i godi pryder o ran addasrwydd i ymarfer, gweler www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/concerns-complaints-and-referrals/**

192. Nid cam cadarnhau'r ail-ddilysiad yw'r adeg i'r cadarnhäwr benderfynu a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i ymarfer, ond yn hytrach yr adeg i gadarnhau bod yr unigolyn wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu.

193. Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu orchymyn amod(au) ymarfer neu rybudd, mae'n dal yn ofynnol i chi wneud cais i adnewyddu eich cofrestriad cyn belled â'ch bod yn bodloni'r holl ofynion adnewyddu. Fodd bynnag, byddwch yn parhau i fod yn ddarostyngedig i brosesau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chanlyniad y prosesau hynny.

194. Os ydych chi wedi cael eich tynnu oddi ar y gofrestr, nid oes modd i chi ail-ddilysu gan nad ydych ar y gofrestr mwyach. Bydd angen i chi wneud cais am adfer eich lle ar y gofrestr.

Am ragor o wybodaeth ar adferiad gweler **www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/information-under-investigation/restoration**

195. Os cewch eich atal dros dro rhag bod ar y gofrestr, ni allwch ail-ddilysu yn ystod eich ataliad dros dro. Ar ddiwedd eich ataliad dros dro, os yw eich cofrestriad yn weithredol, bydd angen i chi gydymffurfio â'r gofynion ail-ddilysu pan fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu. Os nad yw eich cofrestriad yn weithredol ar ddiwedd cyfnod eich ataliad dros dro, bydd angen i chi ddilyn y broses aildderbyn.

# CANSLO EICH COFRESTRIAD

196. Mae'n bosibl na fyddwch chi eisiau cadw un cofrestriad, neu hyd yn oed bob cofrestriad, gyda ni.

- Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno canslo eich holl gofrestriadau gyda ni os ydych chi wedi symud dramor, wedi ymddeol o ymarfer, wedi newid gyrfa neu eisiau cymryd seibiant o ymarfer oherwydd eich iechyd presennol.
- Fel arall, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno canslo un o'ch cofrestriadau os ydych am barhau i ymarfer mewn un maes ond nid y llall. Er enghraifft, os ydych chi wedi cofrestru fel nyrs a bydwraig, ond yn dymuno parhau i ymarfer fel bydwraig yn unig, mae'n bosibl y byddech chi'n dymuno canslo eich cofrestriad nyrsio.

Sylwer, os ydych chi'n derbyn cyflog fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio tra'r ydych chi ar gyfnod mamolaeth, absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gynnal eich cofrestriad gyda ni drwy gydol y cyfnod hwn er mwyn ei dderbyn. Trafodwch hyn gyda'ch cyflogwr.

197. Os ydych chi eisiau canslo eich cofrestriad ar adeg eich cais ail-ddilysu, gallwch wneud hyn ar-lein drwy'r cais ail-ddilysu ar-lein.

198. Os ydych chi eisiau canslo eich cofrestriad pan nad yw hi'n bryd i chi ail-ddilysu, rhaid i chi gyflwyno ffurflen 'cais i ddileu eich cofrestriad'.

199. Bydd angen i chi ddarparu eich rhif adnabod gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, eich enw llawn, eich cyfeiriad cyswllt, y rheswm dros ganslo a datganiad yn nodi nad ydych yn ymwybodol o unrhyw fater a allai godi neu sydd wedi arwain at honiad ynghylch eich addasrwydd i ymarfer.

Mae gwybodaeth am ganslo eich cofrestriad gyda'r NMC ar gael ar ein gwefan ar **www.nmc.org.uk/registration/leaving-the-register/cancelling-registration/**

200. Ni fyddwch yn gallu ymarfer na chyflwyno eich hun fel nyrs gofrestredig neu fydwraig gofrestredig yn y Deyrnas Unedig na chydymaith nyrsio yn Lloegr os nad ydych wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'n drosedd os ydych chi'n twyllo'n fwriadol (yn benodol neu drwy oblygiad), eich bod yn cyflwyno eich hun fel rhywun sydd ar y gofrestr, neu ar ran ohoni, yn meddu ar gymwysterau mewn nyrsio neu fydwreigiaeth neu'n defnyddio teitl nad oes gennych hawl i'w ddefnyddio.[31]

201. Os byddwch chi'n dewis canslo eich cofrestriad, ac yn dymuno ailddechrau ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y Deyrnas Unedig neu gydymaith nyrsio yn Lloegr, trowch at ein canllawiau ar gael eich aildderbyn ar y gofrestr yn **www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register.**

202. Os byddwch chi'n gwneud cais i gael eich aildderbyn o fewn chwe mis i ddyddiad cau eich cofrestriad pan oedd yn bryd i chi ail-ddilysu eich aelodaeth, bydd yn rhaid i chi fodloni rhai o'r gofynion ail-ddilysu yn ogystal â'r gofynion aildderbyn arferol, oni bai eich bod chi'n gallu dangos bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Y gofynion ail-ddilysu ychwanegol hyn yw:

- Rhaid i 20 o'ch 35 awr datblygiad proffesiynol parhaus fod yn gyfranogol
- Pum darn o adborth sy'n seiliedig ar ymarfer
- Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig
- Trafodaeth fyfyriol

203. Am ragor o fanylion ynghylch y gofynion a'r broses ailymuno ac ail-ddilysu, gweler **www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register/readmission-register/details- of-the-requirements**.

# Methu ail-ddilysu ac apeliadau

204. Os na allwch chi fodloni'r gofynion ail-ddilysu, gallwch ganslo eich cofrestriad gyda ni. Drwy ganslo eich ail-ddilysiad a rhoi rheswm i ni dros wneud hynny, rydych chi'n dangos mewnwelediad ac mae'n dangos i ni eich bod yn rheoli eich sefyllfa mewn ffordd gyfrifol. Byddwch yn dal i feddu ar gymhwyster nyrsio, bydwreigiaeth neu gydymaith nyrsio, ond ni fyddwch yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig. Pan fyddwch chi'n barod i ymarf er eto, gallwch wneud cais i gael eich ail-dderbyn. Mae gwybodaeth ynghylch canslo cofrestriad a cheisio cael lle ar y gofrestr unwaith eto ar gael ar ein gwefan yn **www.nmc.org.uk/registration**.

205. Os na fyddwch chi'n canslo eich cofrestriad, ond nad ydych yn cyflwyno eich cais ail-ddilysu cyn diwedd eich cyfnod adnewyddu o dair blynedd, bydd eich cofrestriad yn dod i ben (yn dod i ben yn awtomatig). Bydd angen i chi wneud cais am gael eich ail-dderbyn os ydych chi am adennill eich lle ar y gofrestr.

206. Os gwrthodir eich cais am ail-ddilysu oherwydd y gwneir penderfyniad nad ydych wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.[32]

207. Dylid anfon hysbysiad am apêl i **registrationinvestigations@nmc-uk.org** yn ysgrifenedig, a dylai gynnwys:

- eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif adnabod gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- dyddiad, natur a manylion perthnasol eraill y penderfyniad sy'n destun yr apêl
- datganiad cryno ynghylch sail yr apêl
- enw a chyfeiriad eich cynrychiolydd (os oes gennych chi un) a datganiad ynghylch a ddylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ohebu â'r cynrychiolydd hwnnw ynghylch yr apêl yn hytrach na gohebu gyda chi
- datganiad bod yr hysbysiad yn hysbysiad apêl
- llofnod gennych chi neu ar eich rhan, a hefyd
- copi o unrhyw ddogfen y bwriadwch ddibynnu arni at ddibenion eich apêl.[33]

Cysylltwch â ni os ydych angen help neu gymorth i gwblhau'r hysbysiad hwn.

208. Nid oes gennych hawl i apelio os na fyddwch yn talu'r ffi gofrestru neu os na chyflwynwch ffurflen gais ail-ddilysu o fewn yr amserlen ofynnol a bod eich cais i adnewyddu eich cofrestriad yn cael ei wrthod o ganlyniad.[34]

209. Os na chaiff eich cofrestriad ei adnewyddu oherwydd i chi ganslo eich cofrestriad, neu os na wnaethoch gwblhau eich cais ail-ddilysu, na os na chyflwynwyd eich cais mewn pryd neu os gwrthodir eich cais am ail-ddilysu, ni fyddwch yn gallu ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig. Mae'n drosedd os ydych chi'n cyflwyno eich hun yn fwriadol fel rhywun sydd ar y gofrestr, neu ar ran ohoni, neu'n defnyddio teitl nad oes gennych hawl i'w ddefnyddio.[35]

# FFURFLEN DATGANIADAU MYFYRIOL

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig ar eich datblygiad proffesiynol parhaus a/neu adborth yn seiliedig ar ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich ymarfer a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod. Llenwch dudalen ar gyfer pob un o'ch adroddiadau myfyriol, gan sicrhau nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai fod yn ffordd o adnabod claf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr neu unigolion penodol. Cyfeiriwch at ein canllawiau ar gadw anhysbysrwydd yn yr adran ar wybodaeth na ellir ei defnyddio i adnabod rhywun yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth*.

| **Adroddiad myfyriol:** |
|---|
| **Beth oedd natur y gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus a/neu adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich ymarfer?** |
| **Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn sgil y gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus a/neu'r adborth a/neu'r digwyddiad neu'r profiad yn eich ymarfer?** |
| **Sut wnaethoch chi newid neu wella eich ymarfer o ganlyniad?** |
| **Sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod?**<br>**Dewiswch un neu ragor o themâu: Blaenoriaethu pobl – Ymarfer yn effeithiol – Cadw diogelwch – Hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth** |

# FFURFLEN TRAFODAETH FYFYRIOL

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi eich trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall a gofrestrwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am eich pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig. Yn ystod eich trafodaeth ni ddylech drafod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth na chydweithwyr mewn ffordd a allai ddatgelu pwy ydyn nhw oni bai eu bod yn cytuno'n benodol, ac yn yr adran crynodeb o'r drafodaeth isod, gofalwch nad ydych chi'n cynnwys unrhyw wybodaeth a allai nodi pwy yw'r unigolyn. Trowch at yr adran ar wybodaeth na ellir ei defnyddio i adnabod rhywun yn *Sut mae ail-ddilysu â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth* am ragor o wybodaeth. Am ragor o wybodaeth ynghylch trafodaethau myfyriol, trowch at ein taflen ganllaw ar ymarfer myfyriol ar gyfer ail-ddilysu.

**I'w llenwi gan y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio:**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Rhif Adnabod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: | |

**I'w llenwi gan y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio y buoch chi'n trafod gydag ef/hi:**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Rhif Adnabod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Cyfeiriad proffesiynol, gan gynnwys y cod post: | |
| Rhif cyswllt: | |
| Dyddiad y drafodaeth: | |
| Crynodeb byr o'r drafodaeth: | |
| Rwyf wedi trafod pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio a enwir fel rhan o drafodaeth fyfyriol. | Llofnod: |
| Rwy'n rhoi caniatâd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gysylltu â mi i ddarparu rhagor o wybodaeth os oes angen at ddibenion gwirio. | Dyddiad: |

# FFURFLEN GADARNHAU

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi eich cadarnhad.

**I'w llenwi gan y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio:**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Rhif Adnabod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth:** | |
| **Dyddiad adnewyddu'r cofrestriad diwethaf neu ddyddiad ymuno â'r gofrestr:** | |

**Rwyf wedi cael cadarnhad gan (dewiswch yr un sy'n gymwys):**

- ☐ Rheolwr llinell sydd hefyd yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- ☐ Rheolwr llinell nad yw'n nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r NMC
- ☐ Nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall a gofrestrwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- ☐ Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig
- ☐ Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig tramor
- ☐ Gweithwyr proffesiynol arall yn unol â theclyn cadarnhau ar-lein y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**I'w lenwi gan y sawl sy'n cadarnhau:**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Teitl:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfeiriad proffesiynol, gan gynnwys y cod post:** | |
| **Rhif cyswllt:** | |
| **Dyddiad y drafodaeth gadarnhau:** | |

**Os ydych chi'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, darparwch:**

| |
|---|
| **Pin NMC:** |

**Os ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig, darparwch:**

| |
|---|
| **Proffesiwn:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer corff rheoleiddio:** |

**Os ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir dramor, rhowch:**

| |
|---|
| **Gwlad ymarfer:** |
| **Proffesiwn:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer y corff rheoleiddio:** |

**Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol arall, rhowch y canlynol:**

| |
|---|
| **Proffesiwn:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer corff rheoleiddio:** |

# Rhestr wirio cadarnhau gofynion ail-ddilysu

## Oriau ymarfer

☐ Rydych chi wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi ymarfer am y lleiafswm o oriau sydd eu hangen ar gyfer cofrestru.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

☐ Rydych chi wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cyflawni 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'w (h)ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio

☐ Rydych chi wedi gweld tystiolaeth bod o leiaf 20 o'r 35 awr yn cynnwys dysgu cyfranogol sy'n berthnasol i'w (h)ymarfer fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

☐ Rydych chi wedi gweld cofnodion cywir o'r datblygiad proffesiynol parhaus a gyflawnwyd.

## Adborth yn seiliedig ar ymarfer

☐ Rydych chi'n fodlon bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cael pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer.

## Adroddiadau myfyriol ysgrifenedig

☐ Rydych chi wedi gweld pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig ar ddatblygiad proffesiynol parhaus y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio a/neu adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn ei (h)ymarfer a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod, wedi ei gofnodi ar ffurflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

## Trafodaeth fyfyriol

☐ Rydych chi wedi gweld ffurflen wedi ei llenwi a'i llofnodi sy'n dangos bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi trafod ei adroddiad myfyriol ag unigolyn arall sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (neu rydych chi'n unigolyn sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedi trafod y rhain gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio eich hunan).

**Rwy'n cadarnhau fy mod i wedi darllen Gwybodaeth i gadarnhawyr, a bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio a enwir uchod sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi dangos i mi ei fod/ei bod wedi bodloni holl ofynion ail-ddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a restrir uchod yn ystod y tair blynedd ers y tro diwethaf iddo/iddi adnewyddu ei gofrestriad/ei chofrestriad, neu ers iddo/iddi ymuno â'r gofrestr fel y nodir yn** *Gwybodaeth i gadarnhawyr***.**

**Rwy'n rhoi caniatâd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gysylltu â mi i gael rhagor o wybodaeth os oes angen at ddibenion gwirio. Rwy'n ymwybodol, os na fyddaf yn ymateb i gais am wybodaeth wirio, y gall hynny roi cais cofrestru'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio mewn perygl.**

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

# TEMPLED O'R COFNOD ORIAU YMARFER

## Canllaw ar lenwi'r cofnod oriau ymarfer

I gofnodi eich oriau ymarfer fel nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio cofrestredig, llenwch dudalen ar gyfer pob un o'ch cyfnodau ymarfer. Rhowch eich ymarfer diweddaraf yn gyntaf ac yna unrhyw ymarfer arall nes byddwch chi wedi cyrraedd 450 awr. Dim ond yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers i chi adnewyddu eich cofrestriad diwethaf neu eich cofrestriad cychwynnol y gallwch gyfrif oriau ymarfer. Nid oes angen i chi gofnodi oriau ymarfer unigol, o reidrwydd. Gallwch ddisgrifio eich oriau ymarfer fel diwrnodau neu wythnosau gwaith safonol. Er enghraifft, os ydych chi'n gweithio'n llawn amser, gwnewch un cofnod oriau yn unig. Os ydych chi wedi gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau, nodwch y rhain yn unigol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi argraffu tudalennau ychwanegol i ychwanegu rhagor o gyfnodau ymarfer. Os ydych chi'n nyrs ac yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio ac yn nyrs, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth i gwmpasu 450 o oriau ymarfer ar gyfer pob un o'r cofrestriadau hyn[33]

**Lleoliad gwaith**
- Gwasanaeth ambiwlans
- Y sector cartrefi gofal
- Lleoliad cymunedol (gan gynnwys fel nyrs ardal neu nyrs seiciatrig gymunedol)
- Ymgynghori
- Sector cosmetig neu esthetig
- Corff llywodraethu neu arweinyddiaeth o fath arall
- Practis meddyg teulu neu ofal sylfaenol arall
- Ysbyty neu ofal eilaidd arall
- Arolygiaeth neu reoleiddiwr
- Yswiriant neu gyfreithiol
- Uned mamolaeth neu ganolfan eni
- Milwrol
- Iechyd galwedigaethol
- Yr heddlu
- Sefydliad polisi
- Carchar
- Lleoliad domestig preifat
- Sefydliad iechyd y cyhoedd
- Ysgol
- Gofal arbenigol neu ofal trydyddol arall, gan gynnwys hosbis
- Cyngor dros y ffôn neu e-iechyd
- Undeb llafur neu gorff proffesiynol
- Prifysgol neu gyfleuster ymchwil arall
- Sector gwirfoddol neu elusennol

Arall

**Cwmpas ymarfer**
- Gofal neu reolaeth glinigol uniongyrchol
- Comisiynu
- Addysg
- Polisi
- Sicrwydd ansawdd neu archwiliad
- Ymchwil
- Arall

**Cofrestru**
- Nyrs
- Bydwraig
- Nyrs/SCPHN
- Bydwraig/SCPHN
- Nyrs a Bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCHPN a Bydwraig/SCPHN) Nyrs a chydymaith nyrsio (gan gynnwys Nyrs/SCPHN

| Dyddiadau | Enw a chyfeiriad y sefydliad | Eich lleoliad gwaith (dewiswch o blith y rhestr uchod) | Cwmpas eich ymarfer (dewiswch o blith y rhestr uchod) | Nifer yr oriau | Eich cofrestriad (dewiswch o blith y rhestr uchod) | Disgrifiad byr o'ch gwaith |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS (DPP)

# TEMPLED O GOFNOD

## Canllaw ar lenwi cofnod datblygiad proffesiynol parhaus

**Enghreifftiau o ddull dysgu**
- Dysgu ar-lein
- Presenoldeb ar y cwrs
- Dysgu annibynnol

**Beth oedd y testun?**
Rhowch amlinelliad byr o bwyntiau allweddol y gweithgaredd dysgu, sut mae'n gysylltiedig â'ch cwmpas ymarfer, yr hyn a ddysgoch, a sut rydych chi wedi cymhwyso'r hyn a ddysgoch i'ch ymarfer.

**Cysylltiad â'r Cod**
Nodwch y rhan neu'r rhannau o'r Cod sy'n berthnasol i'r datblygiad proffesiynol parhaus
- Blaenoriaethu pobl
- Ymarfer yn effeithiol
- Cadw pethau'n ddiogel
- Hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

Rhowch yr wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob gweithgaredd dysgu, nes i chi gyrraedd 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (mae'n rhaid i 20 awr o hynny fod yn gyfranogol). Am enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus y gallech chi eu gwneud, a'r mathau o dystiolaeth y gallech chi eu cadw, trowch at ein taflen ganllaw yn **www.revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information.**

| Dyddiadau | Dull<br>Disgrifiwch y dulliau a ddefnyddiwyd gennych ar gyfer y gweithgaredd. | Testun(au) | Cysylltiad â'r Cod | Nifer yr oriau | Nifer yr oriau cyfranogi |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | Cyfanswm | Cyfanswm |

# TEMPLED COFNOD ADBORTH

## Canllaw ar lenwi cofnod adborth

**Enghreifftiau o ffynonellau adborth**

- Cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau
- Cydweithwyr – nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eraill
- Disgyblion
- Gwerthusiad blynyddol
- Adroddiadau perfformiad tîm
- Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol
- Serious event reviews

**Enghreifftiau o'r mathau o adborth**

- Ar lafar
- Llythyr neu gerdyn
- Arolygon
- Adroddiad

Rhowch yr wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob un o'ch pum darn o adborth. Ni ddylech gofnodi unrhyw wybodaeth y byddai modd ei defnyddio i adnabod unigolyn, boed yr unigolyn hwnnw'n fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun yn Sut i ail-ddilysu â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnwys canllawiau ar sut mae gwneud yn siŵr nad yw eich nodiadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.

Mae'n bosibl yr hoffech chi feddwl am sut mae eich adborth yn berthnasol i'r Cod, a sut gellid ei ddefnyddio yn eich adroddiadau myfyriol.

| **Dyddiad** | **Ffynhonnell yr adborth**<br>O ble daeth yr adborth? | **Math o adborth**<br>sut dderbyniad gafodd yr adborth? | **Cynnwys adborth**<br>Beth oedd testun yr adborth a sut mae wedi dylanwadu ar eich ymarfer? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# ÔL-NODIADAU

[1] SI 2002/253 fel y'i diwygiwyd.

[2] SI 2004/1767 fel y'i diwygiwyd.

[3] Gwneir y safonau ar gyfer ail-ddilysu o dan Erthygl 19(1) o Orchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

[4] Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2018.

[5] 5 Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Lle mae'r ddeddfwriaeth wedi ei lledaenu ar draws sawl darn o ddeddfwriaeth, gyda rhai gwahaniaethau. Er enghraifft, mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 hefyd yn cynnwys ystyried 'barn wleidyddol' fel nodwedd warchodedig.

[6] Diffinnir 'anabledd' yn y Ddeddf fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar allu unigolyn i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

[7] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio hefyd yn bosibl; byddai hyn angen 1,350 o oriau ymarfer.

[8] Erthygl 10(2)(c) o'r Gorchymyn, Rheol 13(1)(b)(ii) o'r Rheolau.

[9] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio hefyd yn bosibl; byddai hyn angen 1,350 o oriau ymarfer.

[10] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(3) o'r Gorchymyn.

[11] Safon a bennwyd dan Erthygl 19(3) o'r Gorchymyn.

[12] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn.

[13] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn.

[14] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn ac o dan reol 13(1)(b)(i) o'r Rheolau.

[15] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn.

[16] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn.

[17] Safonau a bennwyd dan Erthygl 19(1) o'r Gorchymyn.

[18] Rheol 13(1)(b)(i).

[19] Rheol 13(1)(a) o'r Rheolau.

[20] Rheol 13(1)(a) a pharagraff 2 o Atodlen 4 o'r Rheolau.

[21] Rheol 13(1)(a) a Rheolau 6(6)(d) a 6(6)(e).

[22] Rheol 6(6)(c).

[23] Rheol 6(6)(d) a Rheol 6(6)(e).

[24] RRheol 6(6)(d) o'r Rheolau.

[25] Erthygl 10(2)(aa) o'r Gorchymyn a Rheol 13(1)(aa) o'r Rheolau.

[26] Paragraff 1(h)(ii) o Atodlen 4 o'r Rheolau.

[27] Rheol 13(1)(d) o'r Rheolau.

[28] Rheol 13(1)(d) o'r Rheolau.

[29] Ni allwn ymestyn unrhyw gais y tu hwnt i dri mis. Rheol 14(5) o'r Rheolau.

[30] Rheol 13(1)(d).


[31] Erthygl 44 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

[32] Erthygl 37(1)(a) o'r Gorchymyn.

[33] Erthygl 37(1)(a) o Orchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a Rheolau 19, 20 a 21 o'r Rheolau Cofrestru.

[34] Erthygl 37(2) o'r Gorchymyn.

[35] Erthygl 44 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.



23 Portland Place, London W1B 1PZ
**T** +44 20 7333 9333
**www.nmc.org.uk/about-us/our-role/ein-rol**

Y rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth